



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Cyfres lawn o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol – Blwyddyn Lawn (1 Ebrill – 31 Mawrth) - 2021/22





Allwedd i'r Dangosyddion Perfformiad:









- **Cyfeirnod CP** – Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cynllun Corfforaethol
- **Cyfeirnod PI** – Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth











Allwedd CAG (Coch, Ambr, Gwyrdd):









- **Gwyrdd**: cyflawnwyd targed 2021/22 /cynnal neu wella perfformiad 2020/21
- **Ambr**: O fewn 5% i gyrraedd y targed / o fewn 5% i berfformiad y flwyddyn flaenorol
- **Coch**: 5% neu fwy o dan y targed / 5% neu fwy yn is na pherfformiad y flwyddyn flaenorol
- **Amh** – dim data cymaradwy neu dim targed wedi'i bennu









Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth (01/04/2021 i 31/03/2022)?











Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG yn erbyn Targed 21/22
1 Amcan Llesiant 1 – Gwella Llesiant plant a phobl ifanc						
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr						
CP/109 – Nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth ffurfiol cydnabyddedig fesul 1,000 o gyflogeion	6.72	8.06	15.25	8.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
<p>Mae 78 o gyflogeion ar gynlluniau yn ystod 2021/22.</p> <p>- 39 o Brentisiaid Modern (17 o brentisiaid modern ychwanegol yn 2021/22).</p> <p>- 39 o staff cyflogedig yn uwchraddio sgiliau gan ddefnyddio cyllid prentisiaeth (21 o staff cyflogedig ychwanegol yn uwchraddio sgiliau gan ddefnyddio cyllid prentisiaeth yn ystod 2021/22):</p> <p>Rhennir y 21 o staff yn 2021/22 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - 2 gyflogai yn astudio Rheolaeth Lefel 7 - 6 chyflogai yn astudio Rheolaeth Lefel 5 - 4 cyflogai yn astudio Rheolaeth Lefel 4 - 3 chyflogai yn astudio Rheolaeth Lefel 3 - 1 cyflogai yn astudio Eiriolaeth Lefel 2 - 5 cyflogai yn astudio Dylunio Dysgu Digidol Lefel 3 <p>Nifer y cyflogeion ar 31 Mawrth 2022 yw 5,115.</p>						
Cyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes						
CP/002 - Nifer y lleoedd gofal plant diwrnod llawn a ddarparwyd	2335.00	2413.00	2339.00	2400.00	 Ambr	 Ambr
<p>Mae nifer y lleoedd wedi cynyddu ers diwedd chwarter 3 (2,333). Mae'r niferoedd cofrestredig yn amrywio ar hyd y flwyddyn wrth i leoliadau newid neu amrywio'u niferoedd cofrestredig. Mae'r sector yn dal i adweithio ac ymateb i effeithiau Covid, sy'n parhau i effeithio ar eu gweithrediad. Hyd yn oed pan fydd datblygiadau newydd yn agor, mae eraill yn datgofrestru ar yr un pryd, gan effeithio ar gyfanswm y lleoedd cofrestredig.</p>						











Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG yn erbyn Targed 21/22
CP/005 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	94.02	93.83	91.18		 Ambr	 AMH
<p>Mae data 2021/22 yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2020/21. Mae pandemig Covid-19 yn dal i effeithio ar bresenoldeb disgyblion. Er bod nifer y disgyblion sy'n dychwelyd i'r ysgol wedi bod yn rhagorol, mae presenoldeb parhaus wedi bod yn fylchog i rai sydd wedi gorfod hunanynysu gartref; ynysu wrth ddisgwyl am ganlyniadau prawf PCR, neu'r disgyblion hynny sydd wedi dal Covid eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru wedi dileu'r angen i ysgolion ac awdurdodau lleol osod targedau presenoldeb am yr ail flwyddyn yn olynol.</p> <p>Dim targed wedi'i bennu yng Nghynllun Corfforaethol 2021/23 oherwydd Covid-19.</p>						
CP/006 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	93.46	92.51	87.88		 Coch	 AMH
<p>Mae data 2021/22 yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2020/21. Mae pandemig Covid-19 yn dal i effeithio ar bresenoldeb disgyblion. Er bod nifer y disgyblion sy'n dychwelyd i'r ysgol wedi bod yn rhagorol, mae presenoldeb parhaus wedi bod yn fylchog i rai sydd wedi gorfod hunanynysu gartref; ynysu wrth ddisgwyl am ganlyniadau prawf PCR, neu'r disgyblion hynny sydd wedi dal Covid eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru wedi dileu'r angen i ysgolion ac awdurdodau lleol osod targedau presenoldeb am yr ail flwyddyn yn olynol.</p> <p>Dim targed wedi'i bennu yng Nghynllun Corfforaethol 2021/23 oherwydd Covid-19.</p>						
CP/007 – Canran y disgyblion a asesir yn Gymraeg ar ddiwedd y cyfnod Sylfaen	16.63			15.80	 AMH	 AMH
<p>Ni chynhaliwyd asesiadau Cyfnod Sylfaen ar gyfer 2021/22 (blwyddyn academaidd 2020/21) na 2020/21 (blwyddyn academaidd 2019/20) oherwydd Covid -19. Mae data 2019/20 (16.63%) yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2018/19.</p>						
CP/008 – Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf	11.40	11.33	12.29	11.70	 Gwyrdd	 Gwyrdd
<p>Ym Mlwyddyn Academaidd 2020/21, roedd 199 o ddisgyblion yn astudio Cymraeg iaith gyntaf o garfan o 1,619, o gymharu â 171 o garfan o 1,509 yn 2019/20. Mae nifer y disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf a'r ganran gysylltiedig wedi cynyddu rhyw fymryn o gymharu â Blwyddyn Academaidd 2019/20. Mae'r ffigur yn debygol o godi'n gyson yn ystod y 3 blynedd nesaf.</p>						













Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG yn erbyn Targed 21/22
CP/013 – Canran y bobl ifanc sy'n NEET – yn gadael Blwyddyn 11 heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET)	2.15	2.12	2.41	3.00	 Coch	 Gwyrdd
Dengys data ymadawyr blwyddyn 11 2021 fod 2.4% (39 o 1,618 o ddisgyblion) o bobl ifanc wedi gadael yr ysgol a dod yn NEET.						
CP/014 - Canran y bobl ifanc 11-19 oed sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Ieuencid (caiff hyn ei fesur yn gronol yn ystod y flwyddyn ariannol – bob chwarter)	45.75	9.47	29.79	28.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Yn ystod 2021/22, cyrhaeddodd y Gwasanaeth Ieuencid 4,472 o bobl ifanc 11-19 oed, sy'n cyfateb i 29.79% o'r boblogaeth 11-19. Mae'r niferoedd wedi cynyddu oherwydd bod cyfyngiadau Covid wedi llacio, a bod y Gwasanaeth Ieuencid wedi gallu dychwelyd at ddulliau ymgysylltu blaenorol. Bu amharu o hyd yn ystod eleni, ac mae'r niferoedd yn is na'r lefelau cyn y pandemig.						
CP/108 - Sgôr capio 9	342.09	369.00	378.00	345.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Mae'r data a adroddwyd yn 2021/22 yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2020/21. Nid oes modd cymharu â blynyddoedd blaenorol gan fod y dull wedi'i seilio ar asesiadau athro (oherwydd Covid-19).						
ELLL - PI/444 - Canran y disgyblion Blwyddyn 11 a gyflawnodd 5 TGAU gradd A*-C, neu gyfatebol, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a Mathemateg	45.81	57.83	62.75	50.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
. Mae'r data a adroddwyd yn 2021/22 yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2020/21. Cyflawnodd 1,061 o ddisgyblion y dangosydd hwn, o garfan o 1,619 - Nid oes modd cymharu â blynyddoedd blaenorol gan fod y dull wedi'i seilio ar asesiadau athro (oherwydd Covid-19).						
ELLL - EDU/015a - Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos, gan gynnwys eithriadau - mesurwyd ar draws blwyddyn galendr	48.94	34.38	19.64	35.00	 Coch	 Coch
Cyflwynwyd 11 o ddatganiadau o fewn y terfyn amser o 26 wythnos (gan gynnwys eithriadau) allan o gyfanswm o 56 datganiad posibl. Mae'r oedi o ran cyngor meddygol yn parhau i gael effaith niweidiol ar allu'r awdurdod lleol i gyflwyno Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o fewn y 26 wythnos rhagnodedig.						









Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG yn erbyn Targed 21/22
ELLL - EDU/015b - Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos, heb gynnwys eithriadau (mesurwyd ar draws blwyddyn galendr)	100.00	100.00	100.00	100.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Cyflwynwyd 11 o ddatganiadau o fewn y terfyn amser o 26 wythnos (heb gynnwys eithriadau) allan o gyfanswm o 11 datganiad posibl. Mae'r ffigur hwn yn dangos, pan na fydd oedi wrth gyflwyno cyngor, bod y Gwasanaeth Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol (GCADY) yn gallu llwyddo i gyflwyno Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o fewn y 26 wythnos.						
CP/115 - % y plant sydd wedi derbyn y wers Cydberthynas Iach i roi sylw i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)			42.55	35.00	 AMH	 Gwyrdd
<p>Mae'r gwersi Cydberthynas Iach sy'n cael eu cyflwyno mewn ysgolion yn targedu disgyblion blwyddyn 6 yn yr ysgolion cynradd a disgyblion blwyddyn 8 yn yr ysgolion uwchradd. 1,408 o 3,309 (carfan o ddisgyblion blwyddyn 6 ac 8): 42.55%</p> <p>Mae'r gwaith hwn wedi cael ei lesteirio'n sylweddol gan y pandemig yn ystod 2020/21 ac ar ddechrau 2021/22. Fodd bynnag, yn chwarter olaf 2021/22 rydyn ni wedi gallu cyflwyno'r wers i 1,408 (86%) o ddisgyblion ysgol uwchradd blwyddyn 8, nawr bod yr holl gyfyngiadau Covid wedi mynd. Cyflwynir hyn i ddisgyblion blwyddyn 6 mewn ysgolion yn ystod 2022/23.</p> <p>Ar ben hynny, derbyniodd nifer o ddisgyblion blwyddyn 6 'fersiwn gywasgedig' o'r pecyn gwrs ysgol, a gyflwynwyd yn rhithwir trwy ddigwyddiad Blyneddol Diogelwch Cymunedol y Criw Croch yn ystod 2021/22 (roedd tua 1,500 o'r 1,800 oedd yn bresennol yn ddisgyblion blwyddyn 6).</p> <p>Dangosydd perfformiad newydd ar gyfer 2021/22.</p>						
PI/466 - Canran y plant a'r bobl ifanc sydd wedi cyfranogi mewn rhaglen addas sy'n ymdrin â VAWDASV (trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol)					 AMH	 AMH
Mae digwyddiad Blyneddol Diogelwch Cymunedol y Criw Croch hefyd yn cynnwys gwrs ar Gydberthynas Iach, a gyflwynwyd i ryw 1,800 o ddisgyblion. Yn ystod 2021/22 cyflwynwyd hyn yn rhithwir oherwydd y pandemig, ond bydd yn cael ei gyflwyno wyneb yn wyneb yn ystod 2022/23. Cyfeiriwch hefyd at CP/115 uchod.						
ELLL - PI/480 - Y cynnydd a wnaed o ddechrau'r Derbyn hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen					 AMH	 AMH
Nid oedd gofyn bod ysgolion yn cynnal asesiadau Cyfnod Sylfaen yn 2021/22 (blwyddyn academaidd 2020/21) na 2020/21 (blwyddyn academaidd 2019/20) oherwydd Covid-19.						









Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG yn erbyn Targed 21/22
PI/467 - Canran y plant blwyddyn 6 a'r bobl ifanc sydd wedi cyfranogi mewn rhaglen addas sy'n ymdrin â seiber-droseddu					 AMH	 AMH
Mae digwyddiad blynyddol Diogelwch Cymunedol y Criw Croch yn cyflwyno gweithdy ar Seiber-droseddu a gyflwynwyd i ryw 1,800 o ddisgyblion. Yn ystod 2021/22 fe'i cyflwynwyd yn rhithwir, ond bydd yn cael ei gyflwyno wyneb yn wyneb yn ystod 2022/23.						
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai						
PI/239 - % o'r plant a gefnogwyd i fyw gyda'u teulu.	67.00	67.81	69.72	64.70	 Gwyrdd	 Gwyrdd
608 allan o 872 yn 2021/22 o gymharu â 615 allan o 907 yn 2020/21. Mae'r perfformiad wedi codi ychydig, ac mae hynny oherwydd y ffocws ar waith Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth.						
PI/240 - % y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o ofal yn ystod y flwyddyn		35.00		9.60	 AMH	 AMH
Poblogir yr wybodaeth hon gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'r data yma wedi cael ei ryddhau eto.						
PI/241 - % y plant a gofrestrwyd eilwaith ar gofrestr amddiffyn plant yr awdurdod lleol	13.93	7.38	11.58	9.40	 Coch	 Coch
11 allan o 95 yn 2021/22 o gymharu ag 11 allan o 149 yn 2020/21. Mae'r ffigur hwn, p'un a yw'n uchel neu'n isel yn helpu i lywio penderfyniadau. Caiff yr holl achosion ailgofrestru eu hadolygu gan Reolwr y Tîm ac maen nhw'n cael eu monitro gan y Prif Swyddogion. Mae nifer yr ailgofrestradau yn aros yr un fath eleni ag ar yr adeg hon y llynedd, er bod y ganran yn uwch oherwydd bod llai o blant ar y gofrestr eleni o gymharu â'r llynedd. Dylid nodi bod Plant y rhoddir eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant Amlasiantaeth, ac ni chytunir ar y penderfyniad i dynnu enw plentyn oddi ar y gofrestr ond pan fydd consensws y mhlith y grŵp Amlasiantaeth hwnnw nad yw'r risg yn bresennol bellach, ac nad oes risg niwed sylweddol bellach.						









Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/247 - % y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, heblaw am drefniadau pontio, yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth.	3.06	3.91	5.26	10.00	 Coch	 Gwyrdd
9 allan o 171 yn 2021/22 o gymharu â 7 allan o 179 yn 2020/21. Rydyn ni'n parhau i ymdrechu i leiafu nifer y newidiadau i leoliadau a'r newidiadau dilynol o ran ysgolion i'n plant, a chydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau Amlasiantaeth (MAPSS), gwasanaeth therapiwtig sy'n gweithio'n gyfannol gyda phlant sy'n derbyn gofal er mwyn osgoi chwalfa mewn lleoliadau a threfniadau ysgol. Byddai unrhyw benderfyniad i symud plentyn i ysgol wahanol yn cael ei ystyried yn ofalus.						
PI/250 - % yr ymadawyr gofal sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn.	1.87	1.97	3.52	9.40	 Coch	 Gwyrdd
9 allan o 256 yn 2021/22 o gymharu â 5 allan o 254 yn 2020/21. Mae rhaglen waith yn parhau ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion sy'n edrych ar Ddigartrefedd leuenctid ac rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r prosesau sydd gennym ar gyfer sicrhau bod pobl ifanc mewn llety addas.						
PI/527 – Canran yr Ymweliadau Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn 2 wythnos			89.92	87.70	 AMH	 Gwyrdd
2,292 allan o 2,549 yn 2021/22. Mae hwn yn ddangosydd perfformiad newydd, felly nid oes gennym ni ddata cymharol. Mae'r ffigur hwn wedi parhau'n gyson yn ystod hanner diwethaf 2021/22. Cofnodir rhesymau pam mae ymweliadau wedi methu â chydymffurfio, ac fel arfer bydd y plant hynny sy'n derbyn ymweliadau amddiffyn plant yn cael eu gweld gan nifer o weithwyr proffesiynol bob pythefnos h.y. Ymwelwyr lechyd, Ysgolion etc.						
PI/528 – Canran yr Ymweliadau Statudol â Phlant sy'n Derbyn Gofal a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau			92.48	87.70	 AMH	 Gwyrdd
2,461 allan o 2,661 yn 2021/22. Mae hwn yn ddangosydd perfformiad newydd, felly nid oes gennym ni ddata cymharol. Mae hyn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Gwasanaethau Plant, ac mae'r Prif Swyddogion yn cydweithio'n agos â rheolwyr timau ac aelodau staff i sicrhau bod ymweliadau'n cael eu cwblhau o fewn y terfynau amser ac yn cael eu cynnwys ar y system yn brydlon.						
PI/529 – Canran yr Asesiadau 'Newydd' Cynhwysfawr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle ceir tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld			91.49	68.30	 AMH	 Gwyrdd
1,172 allan o 1,281 yn 2021/22. Mae hwn yn ddangosydd perfformiad newydd, felly nid oes gennym ni ddata cymharol. Mae'r mesur hwn yn flaenoriaeth i'r Gwasanaethau Plant ac wrth symud ymlaen rydym ni'n ymdrechu i weld pob plentyn fel rhan o asesiad newydd. Mae'r Gwasanaethau Plant yn deall pwysigrwydd cyfranogiad y plentyn yn yr asesiad a llais y plentyn.						









Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/530 - CH/001 – Nifer y cysylltiadau ‘newydd’ a gafwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn			12807.00		 AMH	 AMH
Cafwyd 12,807 o gysylltiadau newydd yn 2021/22. Mae hwn yn ddangosydd perfformiad newydd, felly nid oes gennym ni ddata i’w gymharu. Mae’r ffigur hwn yn adlewyrchu’r cynnydd yn y pwysau rydyn ni’n ei weld yn ein Tîm Un Pwynt Cyswllt.						
PI/531 - CH/003 – Nifer y cysylltiadau ‘newydd’ a gafwyd lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf			12807.00		 AMH	 AMH
12,807 yn 2021/22. Mae hwn yn ddangosydd perfformiad newydd, felly nid oes gennym ni ddata cymharol. Fel model gwaith, rydyn ni’n sicrhau bod yr holl gysylltiadau’n cael eu gweld ac yn destun gweithredu o fewn 24 awr, ac adlewyrchir hyn yn y data.						
PI/532 - CH/021 – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i Ymholiadau Adran 47			271.00		 AMH	 AMH
Mae hwn yn ddangosydd perfformiad newydd, felly nid oes gennym ni ddata cymharol. I roi peth cyd-destun i’r mesur hwn, cynhaliwyd 887 o gyfarfodydd strategaeth ar draws y gwasanaeth yn ystod 2021/22, a dim ond 271 o’r rhain aeth ymlaen i ymholiadau Adran 47. Mae llawer o resymau am hyn: caiff plant a theuluoedd eu hailgyfeirio i wasanaethau eraill yn dilyn cyfarfod strategaeth neu i ofal a chymorth. Yr hyn sy’n bwysig i’w nodi yw bod pob un o’r cyfarfodydd hyn yn dod â gweithwyr proffesiynol o bob rhan o’r bartneriaeth at ei gilydd i rannu gwybodaeth a phenderfynu ar y camau nesaf i liniaru risg(iau).						
PI/533 - CH/022 – Nifer yr Ymholiadau Adran 47 a symudodd ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol			92.00		 AMH	 AMH
92 yn 2021/22. Mae hon yn fetreg perfformiad newydd, felly nid oes gennym ddata cymharol. Cwblhawyd 271 o ymholiadau Adran 47 yn 2021/22, gydag 81% o’r ymholiadau hynny’n canfod risg (220). Dim ond 19% a ganfu nad oedd risg, a dod i gasgliad cefnogol. Mae’r gyfradd drosi hon, h.y. nifer yr ymholiadau Adran 47 a sbardunwyd ac sy’n canfod risg, wedi parhau’n gyson ac mae’n rhoi hyder wrth wneud penderfyniadau.						
PI/534 - CH/025 – Nifer y Cynadledau Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfyn amser			78.00		 AMH	 AMH
78 in 2021/22. Mae hon yn fetreg perfformiad newydd, felly nid oes gennym ddata cymharol. Roedd y cynadledau lle methwyd â chadw â y terfyn amser i gyd am resymau dilys: cadeirydd yn sâl, gweithiwr proffesiynol allweddol heb fod ar gael. Cyn i Gynadledd lithro o’r terfyn amser, gwneir ymdrechion i gadw o fewn y terfynau amser, ac os nad yw hynny’n bosib, rhaid i Brif Swyddog awdurdodi’r Gynhadledd i adael y terfynau amser.						












Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/535 - CH/033 – Nifer y plant yr adroddwyd amdanynt yn ystod y flwyddyn lle roedd Ecsbloetio Plant yn ffactor (yn cynnwys Ecsbloetio Plant yn Rhywiol, Ecsbloetio Plant yn Droseddol a Delio mewn Plant)			56.00		 AMH	 AMH
56 yn 2021/22. Mae hon yn fetreg perfformiad newydd, felly nid oes gennym ddata l'w gymharu. Mae'r nifer yma'n parhau i godi wrth i'r Awdurdod Lleol barhau i ddatblygu ei ymateb i niwed y tu allan i gartref y teulu. Mae'r Awdurdod Lleol a'r asiantaethau Partner yn awyddus i ganfod, yn gynnar, y plant hynny sy'n agored i gael eu hecsbloetio.						
PI/536 - CH/054a – Nifer y bobl ifanc â profiad o ofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 12 mis ers gadael gofal		8.00	7.00		 AMH	 AMH
7 allan o 11 yn 2021/22, o gymharu ag 8 allan o 18 yn 2020/21. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud ymdrech bendant i gefnogi ymadawyr gofal i ymgysylltu â chyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.						
PI/537 - CH/054b – Nifer y bobl ifanc â phrofiad o ofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 24 mis ers gadael gofal		13.00	6.00		 AMH	 AMH
6 allan o 18 yn 2021/22 o gymharu â 13 allan o 33 yn 2020/21. Mae gan y mwyafrif o bobl ifanc sydd heb gwblhau o leiaf 3 mis o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 24 mis diwethaf ers gadael gofal ffactorau lliniarol sy'n eu hatal rhag gwneud hynny.						
PI/538 - CA/012 – Nifer y cysylltiadau gan Ofalwyr Ifanc a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn, lle rhoddwyd cyngor neu gymorth			16.00		 AMH	 AMH
Cafwyd 16 o gysylltiadau ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn 2021/22. Mae hwn yn ddangosydd perfformiad newydd, felly nid oes gennym ddata cymharol. Mae'r fetreg perfformiad yma yn tueddu i amrywio, gan fod modd cysylltu'n uniongyrchol â'r Gwasanaethau Ieuenticid yn ogystal, sy'n cyflwyno'r Gwasanaeth i Ofalwyr. Mae'r Gwasanaethau Plant yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc i sicrhau bod plant yn cael eu nodi.						
PI/539 - CA/014 – Cyfanswm nifer yr asesiadau anghenion gofalwyr ifanc a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn			63.00		 AMH	 AMH
Cynhaliwyd 63 o asesiadau Gofalwyr Ifanc yn 2021/22. Mae hwn yn ddangosydd perfformiad newydd, felly nid oes gennym ddata cymharol. Fel gwasanaeth, roedden ni'n disgwyl i'r nifer hwn gynyddu wedi i gyfyngiadau cyfnod clo Covid-19 gael eu llacio. Byddem ni wedi nodi anghenion gofalwyr ifanc trwy ein gwaith o ddydd i ddydd, a'u hasesu'n unol â hynny, ynghyd â'r rhai a gafodd atgyfeiriad ar gyfer Asesiad Gofalwr Ifanc.						
CP/009 – Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddyn nhw symud 3 gwaith neu fwy	7.77	4.08		8.00	 AMH	 AMH
Poblogir yr wybodaeth hon gan Lywodraeth Cymru o'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Nid oes data ar gael nes bod y broses honno'n gyflawn.						











Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/011 - Mesur 24 – Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd yn brydlon	98.76	97.71	99.15	94.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
2,454 allan o 2,475 yn 2021/22 o gymharu â 2,608 allan o 2,669 yn 2020/21. Mae hyn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Gwasanaethau Plant. Mae disgwyl i asesiadau gael eu cwblhau yn ôl yr amserlen, a dim ond pan fo amgylchiadau eithriadol y dylid cytuno gyda'r Prif swyddogion i fynd y tu hwnt i'r terfynau amser.						
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd						
CP/018 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Anafiadau i Blant (0-15 oed)	3.00	0.00	1.00	Dim targed wedi'i bennu	 AMH	 AMH
Gwaetha'r modd, mae rhaid i ni adrodd bod un plentyn wedi'i anafu'n ddifrifol yn y fwrdeistref yn ystod blwyddyn galendr 2021. Mae ein rhaglen lawn o ymyriadau yn parhau i symud yn gyflym.						
CP/019 - Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: - Anafiadau i feicwyr pedal (Pob Oed)	0.00	1.00	0.00	Dim targed wedi'i bennu	 AMH	 AMH
Canlyniad cadarnhaol i 2021, gan na chafodd unrhyw feicwyr pedal eu lladd na'u hanafu'n ddifrifol yn y fwrdeistref yn ystod y flwyddyn galendr, er bod niferoedd uwch o feicwyr ar ein priffyrdd.						
CP/020 - Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: - Gyrwyr Ifanc (16 -24 oed)	1.00	1.00	0.00	Dim targed wedi'i bennu	 AMH	 AMH
Canlyniad cadarnhaol i 2021 gan na chafodd unrhyw yrwyr ifanc eu lladd na'u hanafu'n ddifrifol o fewn y fwrdeistref yn ystod y flwyddyn galendr. Mae ein hymyriad Pass Plus Cymru yn parhau, ynghyd â'n haddysg mewn colegau ac yn y chweched dosbarth mewn ysgolion.						











Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
2 Amcan Llesiant 2 – Gwella Llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol						
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr						
CP/025 – Nifer yr achosion o ddileu swyddi gorfodol gan y Cyngor	9.00	2.00	3.00	Dim targed wedi'i bennu	 AMH	 AMH
Cafwyd 3 achos o ddileu swyddi gorfodol yn ystod 2021/22. Rydym ni'n dal i weithio i gyfyngu cymaint â phosibl ar nifer yr achosion gorfodol o ddileu swyddi, trwy ddarparu cyfleoedd ailgyfeirio i gyflogeion. Mae hyn yn mwyafu dilyniant cyflogaeth i gyflogeion sy'n wynebu risg.						
CP/119 – Budd-daliadau – Diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd yn achos hawliadau newydd a newid amgylchiadau – o'r cais i'r asesiad	2.30	3.10	2.73	6.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Mae'r perfformiad yn dal ar lefel uwch ac yn gyfforddus o fewn y lefelau targed.						
PI/413 – Canran y budd-dal a roddwyd yn gywir yn erbyn y cyfanswm a roddwyd	99.96	99.97	99.98	99.95	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Mae cyfradd uchel o gywirdeb yn dal i gael ei chynnal wrth brosesu hawliadau.						
Cyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes						
CP/034 – Canran yr achosion o gam-drin domestig lle mae pobl yn ddiodefwr eildro – Gwasanaeth yr Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) – y diodefwr sy'n wynebu'r risg uchaf	40.05	37.30	34.67	32.00	 Gwyrdd	 Coch
Roedd 34.7% (181 o 522) o'r achosion o gam-drin domestig yn ddiodefwr eildro. Er bod hynny'n dal yn uwch na'n targed o 32%, mae'r ffigur wedi gostwng o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Mae gwaith yn parhau i gefnogi'r diodefwr hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth, y gall fod angen cefnogaeth ychwanegol arnynt, cefnogaeth dros gyfnod hwy, neu a fydd o bosib yn gadael cefnogaeth ac yn dychwelyd yn ddiweddarach. Gall achosion eildro fod yn arwydd bod gan ddiodefwr fwy o hyder a sicrwydd i roi gwybod am gam-drin domestig a chwilio am gefnogaeth a chymorth, ond gallant hefyd amlygu unrhyw feysydd yn yr ymatebion amlasiantaeth lleol sydd o bosib yn llai effeithiol. Rydym ni'n parhau i adolygu achosion eildro fel mater o drefn er mwyn canfod unrhyw dueddiadau neu feysydd dysgu penodol.						









Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/153 – Nifer y dioddefwyr risg uchel a gafodd eu hatgyfeirio i wasanaeth yr IDVA	432.00	437.00	522.00	450.00	 Coch	 Coch
Mae atgyfeiriadau Chwarter 4 yn ymddangos yn uwch na'r chwarteri blaenorol, gydag uchafbwynt yn y galw ym mis Chwefror. Mae'r rheswm am hynny'n aneglur ar hyn o bryd, ond rydym yn parhau i fonitro a dadansoddi'r data er mwyn canfod unrhyw dueddiadau neu bwyntiau i'w nodi. Mae angen ystyried adlewyrchiad mwy cywir o'r galw am wasanaeth yr IDVA dros gyfnod hwy. Mae cyfanswm yr atgyfeiriadau ar gyfer y flwyddyn i'w gweld fel cynnydd o 19% yn y galw am y Gwasanaeth o gymharu â 2020/21.						
PI/154 – Nifer yr aelodau newydd yn y Patrôl Pawennau	81.00	96.00	289.00	100.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu a hyrwyddo yn ystod y flwyddyn mewn lleoliadau sy'n cynnwys Glan Môr Aberafan, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod – Gwesty'r Castell, Castell-nedd, Neuadd Gymunedol Blaendulais ac Ysbryd y Môr, ar Lan y Môr yn Aberafan. Hefyd mae llif cyson o aelodau newydd yn ymuno ar-lein, a derbyniwyd nifer o geisiadau am ddigwyddiadau PAWS mewn gwahanol ardaloedd ar draws yr awdurdod. Gwnaed cynnydd ardderchog yn ystod y flwyddyn ariannol hon, er gwaethaf heriau Covid-19 a chyfyngiadau newidiol.						
PI/469 – Nifer y bobl a gafodd eu hatgyfeirio i Banel Channel, nad oeddent bellach yn cael eu hystyried yn agored i niwed wedi ymyrraeth gan y Panel	7.00	7.00	6.00	7.00	 AMH	 AMH
Cafwyd cyfanswm o 6 atgyfeiriad newydd i Banel Channel. Cafodd pob un o'r rhain eu monitro a/neu dderbyn ymyrraeth cefnogi priodol i sicrhau nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn agored i niwed. Pan gaiff achosion eu cau gyda Channel, dychwelir at bob un ar gyfer adolygiad 6 mis.						
CP/116 – Cymunedau dros Waith – Blaenoriaeth 1 (25+ oed): nifer y bobl a gynorthwywyd i gael hyfforddiant, i wirfoddoli, i gael profiad gwaith, neu gyflogaeth gynaliadwy		72.00	50.00	86.00	 Coch	 Coch
Blwyddyn anodd i'n categori oed Blaenoriaeth 1 (25+) – mae wedi bod yn anodd ymgysylltu er mwyn cwrrd â'n grŵp targed, ac mae'r atgyfeiriadau wedi bod yn dawel. Fodd bynnag mae hyn yn cael ei weld ar draws Cymru. Tua diwedd y flwyddyn, roedd modd i'r staff ailgydio yn ein lleoliadau estyn allan, ac rydym ni'n dechrau trefnu digwyddiadau penodol i weld cwsmeriaid wyneb yn wyneb. Y gobaith yw y bydd 3 lleoliad cymunedol neu Hyb yn gweithredu yn y flwyddyn ariannol newydd, ac y bydd hynny'n annog digwyddiadau sector-benodol i dargedu'r grŵp yma. Dangosydd newydd ar gyfer 2021/22.						











Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/117 - Cymunedau dros Waith – Blaenoriaeth 3 (16-24 oed): nifer y bobl a gynorthwywyd i gael hyfforddiant, i wirfoddoli, i gael profiad gwaith, neu gyflogaeth gynaliadwy		47.00	134.00	44.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Mae Blaenoriaeth 3, pobl 16-24 oed, wedi parhau i ragori ar y targedau. Mae ein pobl ifanc wedi mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am swyddi, ac wedi ymgysylltu â'n mentoriaid i uwchsgilio, hyfforddi a chwilio am waith. Dangosydd newydd ar gyfer 2021/22.						
CP/118 – Cymunedau dros Waith a Mwy – Rhaglen ar gyfer 16+ oed: nifer y bobl a gafodd eu cynorthwyo i gael hyfforddiant, i wirfoddoli, i gael profiad gwaith, cyflogaeth gynaliadwy, neu'r rhai sydd "mewn tloidi er eu bod yn gweithio"		159.00	525.00	300.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Ar ddechrau 2021/22, roedden ni'n dechrau gweld y rhai mwyaf agored i niwedd wyneb i wyneb yng Nghanolfan Tir Morfa. Gwelwyd atgyfeiriadau i'r rhaglen yn parhau ar hyd y flwyddyn, a chyrrhaeddwyd y targedau bob chwarter yn ystod y flwyddyn. Yn Chwarter 3 roedd modd i'r staff fynychu lleoliadau estyn allan a threfnu digwyddiadau ar gyfer gwaith wedi'i dargedu. Rydym ni hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r adran Adnoddau Dynol i ddatblygu systemau a phrosesau fydd yn annog pobl i wneud cais am swyddi yn CNPT. Mae ein Cynllun Benthycia 'Chrome Books' Digidol yn dal i gael tipyn o ddefnydd gan y rhai sy'n ymgeisio ac yn chwilio am swyddi. Roedd yn galonogol gweld yr ymgysylltu'n cynyddu ymhellach ar ddiwedd y flwyddyn. Wrth i'r nifer cynyddol o atgyfeiriadau ddechrau llifo, roedd modd i'r staff drefnu a mynychu digwyddiadau ymgysylltu o'r newydd yn eu cymunedau. Trefnwyd 2 ffair swyddi yn ystod mis Mawrth, ac roedd yn dda gweld pobl yn dod yn ôl i chwilio am help a chefnogaeth i ymgeisio a chwilio am swyddi.						
PI/415 – Canran cleientiaid y Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff a gwblhaodd y rhaglen o ymarfer corff	79.18		57.08		 AMH	 AMH
Cafodd y gwasanaeth 1,242 o atgyfeiriadau (2019/20) o gymharu â 629 (2021/22) gostyngiad o 50%. Roedd hyn yn ddisgwyliedig gan na ddychwelodd y gwasanaeth hwn yn llawn tan fis Gorffennaf 2021, wedi'i gyfuno â'r ffaith bod ein cleientiaid yn oedolion bregus yn bennaf, oedd yn golygu bod yr awydd i fynd allan a gwneud ymarfer corff wedi'i leihau. Mae'r gwasanaeth yn dal i gynnig sesiynau rhithwir, ond mae'n ffynnu ar ryngweithio cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn dal i weld gostyngiad yn yr atgyfeiriadau, ac nid yw'r system brysbennu newydd sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn y rhan fwyaf o feddygfeydd yn helpu hyn. Mae gan y gwasanaeth gynllun cadarn ar waith i ymdrin â hyn.						
PI/416 – Canran y cleientiaid oedd yn rhan o'r Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff yr oedd eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen o ymarfer corff	63.82		63.73		 AMH	 AMH
Cafodd y gwasanaeth 1,242 o atgyfeiriadau (2019/20) o gymharu â 629 (2021/22) gostyngiad o 50%. Roedd hyn yn ddisgwyliedig gan na ddychwelodd y gwasanaeth hwn yn llawn tan fis Gorffennaf 2021, wedi'i gyfuno â'r ffaith bod ein cleientiaid yn oedolion bregus yn bennaf, oedd yn golygu bod yr awydd i fynd allan a gwneud ymarfer corff wedi'i leihau. Mae'r gwasanaeth yn dal i gynnig sesiynau rhithwir, ond mae'n ffynnu ar ryngweithio cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn dal i weld gostyngiad yn yr atgyfeiriadau, ac nid yw'r system brysbennu newydd sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn y rhan fwyaf o feddygfeydd yn helpu hyn. Mae gan y gwasanaeth gynllun cadarn ar waith i ymdrin â hyn.						


Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai						
CP/031 – Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref	51.50	66.67	60.67	60.00	 Coch	 Gwyrdd
236 o 389 yn 2021/22. Mae gwaith ataliaeth wedi parhau'n flaenoriaeth, ond roedd yn wynebu heriau yn ystod y pandemig oherwydd cyfyngiadau ar y gwaith yr oedd modd ei wneud. Bellach mae capasiti'r tîm ataliaeth wedi cynyddu a bydd y gwaith yn parhau i gynnal cymaint o ffocws â phosibl, gydag ymyrraeth gynnar yn allweddol.						
CP/032 – Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)	196.00	363.20	339.51	270.00	 Gwyrdd	 Coch
Cwblhawyd 202 DFG/Cymerwyd 68,581 diwrnod calendr yn 2021/22. Adlewyrchir yr amharu a achoswyd gan y Pandemig yn yr amser a gymerir i gyflawni Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Parhaodd yr oedi yn sgîl y cyfnodau clo cychwynnol, yr amharu ar gyflenwadau o ddeunyddiau a'r prinder llafur yn ystod y cyfnod hwn.						
PI/517 - Mesur 19 – Cyfradd y bobl a gadwyd yn yr ysbyty wrth ddisgwyl am ofal cymdeithasol, fesul 1,000 o boblogaeth 75+ oed	10.05			3.50		 AMH
Ni ellir cyfrifo'r dangosydd perfformiad hwn gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu data ers mis Mawrth 2020 oherwydd Covid-19. Fodd bynnag, rydym ni'n parhau i fonitro'r sefyllfa'n fanwl ac yn ymdrechu i gefnogi'r nifer o bobl yn yr ysbyty sy'n disgwyl am ofal cymdeithasol lle bynnag y bo modd.						
PI/521 - AD/004 Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn			1052.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Mae'r timau'n parhau i gynnal asesiadau ar gyfer oedolion sydd angen gofal a chymorth.						
PI/521a - AD/005a Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn lle nad oedd modd diwallu anghenion ond â chynllun gofal a chymorth			846.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Roedd mwyafrif yr oedolion a gafodd asesiad yn gymwys i dderbyn gofal a chymorth gan yr Awdurdod Lleol.						
PI/521b - AD/005b Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn lle roedd diwallu anghenion mewn unrhyw fodd arall			180.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Nodwyd ffyrdd amgen o ddiwallu anghenion rhai pobl. Cododd y niferoedd ar gyfer y mesur hwn yn y chwarter olaf, o 85 yn naw mis cyntaf 2021/22 i 180 ar gyfer y flwyddyn lawn.						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/521c - AD/005c Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn lle nad oedd anghenion cymwys i'w diwallu			26.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Dim ond nifer bach o bobl a gafodd asesiad a nodwyd fel rhai heb anghenion cymwys.						
PI/522 - AD/010 Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn			185.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Mae llif y gwasanaeth yn dal yn isel, gyda'r anawsterau parhaus yn y farchnad gofal Cartref.						
PI/522a - AD/011a Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle lleihawyd yr angen am gymorth			36.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Roedd angen lefel is o ofal a chymorth ar 36 o gleientiaid a gwblhaodd y gwasanaeth ailalluogi yn llwyddiannus.						
PI/522b - AD/011b Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd yn cynnal yr angen am yr un lefel o gymorth			23.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Gwelwyd cynnydd yn yr achosion cymhleth, ac adlewyrchir hynny yn nifer y cleientiaid sydd angen gofal parhaus.						
PI/522c - AD/011c Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd yn lliniaru'r angen am gymorth			118.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Oherwydd bod nifer mawr o achosion yn parhau lle roedd oedi wrth drosglwyddo gofal, bu ein capasiti i dderbyn cleientiaid newydd yn gyfyngedig.						







Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/523 - AD/020 Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolion lle roedd amheuan eu bod yn wynebu risg a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn			1368.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Mae'r adroddiadau wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Rydym yn awr yn symud allan o'r Pandemig, ond mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch y data. Bydd yr Awdurdod Lleol bob amser yn croesawu adroddiadau, ac mae'n rhoi mwy o bleser gweld bod AD/023 (isod) yn dangos gyfradd drosi o 18% o Adroddiad i Ymchwiliad.						
PI/524 - AD/023 Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolion yr oedd amheuan eu bod yn wynebu risg lle bu angen gwneud ymholiadau			246.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Mae'r gyfradd drosi o adroddiadau i ymholiadau wedi parhau'n gyson ar draws 4 Chwarter 2021/22. Y gyfradd drosi o 'Adroddiad i Ymchwiliad' yw 18%.						
PI/525 - AD/024 Cyfanswm nifer yr ymholiadau AAR (Oedolyn sy'n wynebu Risg) a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod i dderbyn adroddiad am gamdriniaeth honedig			150.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Dim ond 61% o'r ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod. Fodd bynnag, mae'r achosion hyn yn dal i gael eu hadolygu, ac fel yn achos y chwarteri blaenorol, cymhlethdod yw'r rheswm y cyfeirir ato amlaf pan fydd yr achosion hyn yn mynd y tu hwnt i 7 diwrnod, a ganiateir.						
PI/526 - CA/004 Cyfanswm nifer yr asesiadau anghenion gofawyr i oedolion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn			167.00		 AMH	 AMH
Dangosydd perfformiad newydd o 1/4/2021. Mae Swyddogion yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Gofawyr ynghylch asesiadau gofawyr.						
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd						
CP/019 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Anafiadau i feicwyr pedal (Pob Oed)	0.00	1.00	0.00	Dim targed wedi'i bennu	 AMH	 AMH
Canlyniad cadarnhaol yn 2021 gan na chafodd unrhyw feicwyr pedal eu lladd na'u hanafu'n ddifrifol yn y fwrdeistref yn ystod y flwyddyn galendr, er bod niferoedd cynyddol o feicwyr ar ein priffyrdd.						







Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/040 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Gyrwyr Hŷn (75 oed a throsodd)	0.00	0.00	1.00	Dim targed wedi'i bennu	 AMH	 AMH
Gwaetha'r modd, mae rhaid i ni adrodd am un farwolaeth yn ystod blwyddyn galendr 2021. Nid oedd goblygiadau priffyrdd i adrodd amdanynt.						
CP/041 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Beicwyr Modur – pob Oed	6.00	1.00	3.00	Dim targed wedi'i bennu	 AMH	 AMH
Gwaetha'r modd, mae rhaid i ni adrodd am un farwolaeth yn y categori hwn, a chafodd dau reidiwr arall eu hanafu'n ddifrifol yn ystod blwyddyn galendr 2021. Mae ein hymyriadau Bike Safe, Dragon Rider Cymru ac FBOS (First Bike on Scene – ymyrraeth cymorth cyntaf beiciau modur i Reidwyr) yn parhau ar gyflymdra arferol.						
CP/021 – Nifer yr ymholiadau cychwyn busnesau newydd a gynorthwywyd	273.00	199.00	244.00	250.00	 Gwyrdd	 Ambr
Am gyfnod sylweddol yn ystod 2021/22, bu swyddogion yn ymwneud â gweinyddu taliadau grant Argyfwng Llywodraeth Cymru i fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau Covid. O ganlyniad, roedd ymholiadau yn araf ynghylch gwybodaeth a chynghor i gefnogi busnesau newydd oedd yn cychwyn ar ddechrau 2021/22, cododd momentwm yn ystod chwarter 2 a chwarter 3, ond yna arafodd eto yn chwarter 4. Rydym ni'n rhagweld y bydd cyfraddau gweithgaredd yn codi'n sylweddol yn y flwyddyn ariannol nesaf, wrth i'r gwasanaeth a gyflwynir ddechrau dychwelyd i normal.						
CP/042 – Canran y sefydliadau bwyd sy'n bodloni safonau hylendid bwyd	95.15	96.00	96.62	95.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Mae perfformiad yn parhau ar lefel uchel, ac mae'n cynrychioli safleoedd y dyfarnwyd Graddau Hylendid Bwyd o 3 neu 4 neu 5 iddynt (allan o 5).						

















Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/110 - Gweithffyrdd + - Nifer y bobl a gafodd eu helpu i ddychwelyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli	127.00	58.00	112.00	72.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Mae Gweithffyrdd+ yn parhau i ragori ar eu targed o ran cefnogi unigolion di-waith i gael cyflogaeth, hyfforddiant, i wirfoddoli a/neu i gael profiad gwaith. Mae'r niferoedd atgyfeirio yn cynyddu'n gyson wedi'r pandemig, ac mae cefnogaeth wedi cynyddu ar gyfer y rhai sydd â iechyd meddwl gwael a phroblemau hyder.						
CP/112 – Canran yr eiddo preifat gwag y dechreuwyd eu defnyddio eto		0.00		4.30	 AMH	 AMH
Nid adroddwyd data ar gyfer 2021/22. Mae anawsterau o ran caffael data o ffynonellau mewnol eraill ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn. Mae camau'n cael eu cymryd i unioni hyn yn ystod 2022/23.						
PI/367 - PPN/001ii – Canran y busnesau risg uchel oedd yn atebol i gael archwiliad wedi'i raglennu a archwiliwyd ar gyfer Hylendid Bwyd		13.90	9.98	100.00	 Coch	 Coch
Mae perfformiad yn isel, gan fod ffocws archwiliadau wedi cael ei newid i ymwneud â'r Cynllun Adferiad (fel y cytunwyd arno rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac Awdurdodau Lleol). Mae'r archwiliadau wedi canolbwyntio'n bennaf ar fusnesau bwyd newydd, yn hytrach na busnesau sydd eisoes yn bodoli, oni bai bod cwyn wedi dod i law. O dan y Cynllun adferiad, mae unrhyw archwiliadau hwyr i dderbyn sylw yn 2022/23.						
PI/412 – Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau aildefnyddio eiddo gwag			5.00		 AMH	 AMH
Mae argaeledd y grant cartrefi gwag wedi creu nifer o gartrefi newydd, fel bod adnodd oedd yn cael ei wastraffu yng Nghastell-nedd Port Talbot yn dechrau cael ei ddefnyddio eto. Dim targed wedi'i bennu ar gyfer 2021/22. Dim data ar gael ar gyfer 2019/20 neu 2020/21 oherwydd y pandemig.						
PI/423 – Canran yr eiddo preifat gwag tymor hir sy'n dychwelyd i ddefnydd yn sgîl gweithredu uniongyrchol		3.28	10.00		 Gwyrdd	 AMH
Mae'r gwasanaeth yn targedu'r eiddo gwag problematig, mae 7 eiddo arall wedi mynd trwy broses y Weithdrefn Gorfodi Gwerthiant, ac wedi newid perchnogaeth, ond heb gael eu hailfeddiannu eto. Dim targed wedi'i bennu ar gyfer 2021/22.						









Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/424 – Nifer y cartrefi newydd a gyflwynwyd sy'n fforddiadwy – Targed y CDLI	18.00		0.00	111.00	 AMH	 Coch
<p>Ni ddarparwyd unrhyw gartrefi fforddiadwy na thaliadau symiau a gymudwyd trwy'r system gynllunio (trwy gytundebau adran 106) yn ystod 2021/22. Er bod y cyflwyno trwy'r dull hwn yn siomedig, cyflwynodd Coastal Housing Association, trwy'r Grant Tai Cymdeithasol (SHG), 12 o unedau tai fforddiadwy.</p> <p>Dylanwadwyd ar gyfradd cyflwyno tai fforddiadwy gan y lefelau isel o dai marchnad a gyflwynwyd yn y blynnyddoedd diwethaf, ac oherwydd anawsterau dichonolrwydd. Rhoddir sylw i'r materion hyn trwy adolygiad y CDLI (Cynllun Datblygu Lleol).</p>						
PI/429 – Lefel yr angen heb ei ddiwallu am leiniau sipsiwn a theithwyr o fewn y fwrdeistref sirol	0.00	0.00	0.00	0.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
<p>Cwblhawyd yr estyniad i safle Cae Garw (11 llain breswyl newydd) yn 2016, ac ar sail canfyddiadau Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 (GTAA), roedd yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned yng Nghastell-nedd Port Talbot hyd at 2021.</p> <p>O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 roedd GTAA newydd i gael ei gwblhau erbyn mis Chwefror 2021. Fodd bynnag, oherwydd pandemig Covid-19, cafodd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno GTAA newydd ei estyn tan fis Chwefror 2022. Gwnaed gwaith arolwg y GTAA yn haf/hydref 2021 a chafodd GTAA drafft ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Cabinet i'w gyflwyno ar 9 Chwefror 2022. Mae GTAA Drafft 2022 yn dod i'r casgliad bod angen 10 llain yn ystod cyfnod y cynllun, ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 22 Chwefror 2022. Mae GTAA Drafft 2022 wedi cael ei gydnabod, ac ar hyn o bryd rydym ni'n disgwyl adborth gan Lywodraeth Cymru.</p>						
PI/456 – Nifer y digwyddiadau menter a gynhaliwyd	11.00	9.00	12.00	12.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
<p>Mae Clybiau Menter yn darparu cyngor a chymorth hanfodol i drigolion lleol sy'n ystyried cychwyn eu busnesau eu hunain. Ar hyd 2021/22, mae'r gwasanaeth wedi cael ei gyflwyno'n rhithwir, ond bydd yn ailgychwyn wyneb yn wyneb yn y flwyddyn ariannol nesaf.</p>						
PI/457- Nifer yr wythnosau o hyfforddiant a gwblhawyd ar gyfer prentisiaethau, cyfnodau hyfforddiant a phrofiad gwaith	771.00	2026.00	2844.00		 Gwyrdd	 AMH
<p>Er gwaethaf cyfyngiadau ar y safle a phrinder staff a chyflenwadau ar hyd 2021/22, roedd y gwaith ar brosiectau adeiladu'r Cyngor yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r prosiectau'n cynnig amrywiol gyfleoedd o ran hyfforddiant a phrofiad gwaith i bobl leol. Digwyddodd hyn er bod un o'r prif gontractwyr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn gynnar yn y flwyddyn. Mae'r allbynnau a gyflawnwyd wedi bod yn fwy na boddhaol oherwydd yr amharu parhaus a fu'n effeithio ar y sector adeiladu yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf o ganlyniad i gyfyngiadau Covid. Dim targed wedi'i bennu ar gyfer 2021/22.</p>						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/462 – Nifer yr ymholiadau busnes a gynorthwywyd a arweiniodd at roi cyngor, gwybodaeth neu gefnogaeth ariannol i gwmnïau sydd eisoes yn bodoli trwy'r Gwasanaethau Busnes	728.00	2242.00	711.00		AMH	AMH
Ar hyd 2021/22, mae'r tîm wedi prosesu nifer digynsail o ymholiadau gan fusnesau lleol ynghylch materion fel taliadau argyfwng Covid, ceisiadau am gyllid gan y Cyngor i gefnogi prosiectau ehangu a buddsoddi, ymholiadau eiddo, etc. Rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau, cefnogaeth a chyngor yn parhau i gynyddu i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf. Dim targed wedi'i bennu ar gyfer 2021/22.						
PI/518 – Safonau Masnach – Canran y busnesau a oedd naill ai'n cydymffurfio adeg yr ymweliad, neu y deuyd â nhw i gydymffurfio yn ystod y cyfnod			80.72	75.00	AMH	Gwyrdd
Dangosydd perfformiad newydd ar gyfer 2021/22. Er bod y ffigur yma'n cyrraedd y targed, mae'r ystadegyn yn gamarweiniol o ran nifer yr achosion o dorri'r rheolau a'r ymchwiliadau y mae angen eu datrys. Mae'r gwasanaeth wedi cychwyn cyfnod o amharu sylweddol ar staffio oherwydd salwch a galwadau eraill. Y gobaith yw y bydd cyflenwi'n cael ei ddarparu ar gyfer y staff, ond rydyn ni'n rhagweld na fyddwn ni o bosib yn gallu cyrraedd y targed yma y flwyddyn nesaf, yn enwedig gan fod nifer o ymchwiliadau twyll, bwyd a diogelwch cynnyrch ar raddfa fawr yn hongian dros y gwasanaeth.						
PI/519 – Safonau Masnach – Canran y busnesau risg uchel a oedd yn atebol i gael archwiliad wedi'i raglennu a archwiliwyd ar gyfer Safonau Masnach a lechyd Anifeiliaid			100.00	100.00	AMH	Gwyrdd
Dangosydd perfformiad newydd ar gyfer 2021/22. Mae'r ystadegyn hwn yn cuddio'r ffaith, er bod y gwasanaeth wedi llwyddo i archwilio'r holl fusnesau yn y cyfnod, bpd cyfraddau archwilio ar safleoedd risg is wedi dioddef, ac mae rhai agweddau ar waith Safonau Masnach yn cael eu dadflaenoriaethu. Rydym ni'n disgwyl i'r tueddiad hwn barhau yn y flwyddyn newydd, gyda'r amharu sydd i ddod o ran staff, oni bai bod cyflenwi ac adnoddau yn cael eu darparu.						
PI/520 – Safonau Masnach – Sicrhawyd mesurau gwneud iawn ar gyfer defnyddwyr neu ddiodefwr troseddau trwy gamau gweithredu'r gwasanaeth			18459.00		AMH	AMH
Dangosydd perfformiad newydd ar gyfer 2021/22. Mae hon yn flwyddyn arbennig o gynhyrchiol, ond mae'r ffigur hwn yn eithriad oherwydd 2 achos proffi uchel a fu'n "gwneud taliad" yn 2021/22 ac mae hynny'n annhebygol o gael ei ailadrodd yn 2022/23.						



Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
3 Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl						
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr						
PI/325 – Gwasanaethau Cyfreithiol – Erlyniadau Llwyddiannus am waredu gwastraff heb awdurdod		7.00	0.00		 AMH	 AMH
<p>Mae Covid wedi effeithio ar nifer yr achosion o gyfarwyddo yn ystod 2021/22. Nid oedd swyddogion cleientiaid yn cyfwrdd oherwydd cyfyngiadau Covid pellach. Cofnodwyd 7 erlyniad llwyddiannus yn 2020/21.</p> <p>Nid oes targed wedi'i bennu ar gyfer y mesur hwn.</p>						
Cyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes						
CP/072 – Nifer yr ymweliadau â'n theatrau	217161.00		105647.00		 AMH	 AMH
<p>Bu gostyngiad yn niferoedd yr ymwelwyr â'n theatrau o gymharu â 2019/20 oherwydd Covid -19.</p> <p>Hefyd rhoddwyd Theatr y Dywysoges Frenhinol ar brydles i'r GIG yn ystod Ionawr a Chwefror 2022.</p> <p>Nid oes data ar gael ar gyfer 2020/21 ac nid oes targed wedi'i bennu yng Nghynllun Corfforaethol 2021/23 oherwydd Covid -19.</p>						
CP/073 – Canran y Dangosyddion ansawdd a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd	72.22				 AMH	 AMH
<p>O ganlyniad i'r amharu ar wasanaethau llyfrgelloedd ledled Cymru oherwydd y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod na fydd data ynghylch dangosyddion ansawdd mesuradwy yn cael ei gyhoeddi ar gyfer 2020/21 na 2021/22. Disgwylir y bydd set lawn o ddata ar gael yn ail hanner 2023. Roedd y set ddata ddiweddaraf oedd ar gael ar gyfer 2019/20 yn datgan bod y Gwasanaeth wedi cyflawni 72% o'r dangosyddion ansawdd mesuradwy.</p> <p>Dim targed wedi'i bennu oherwydd Covid-19.</p>						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/074 – Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth	7758.12		4810.49		 AMH	 AMH
<p>Bu gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â chanolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth o gymharu â ffigur 2019/20 oherwydd Covid -19. Mae'r ffigur yn codi'n gyson o chwarter 3 yn 2021/22.</p> <p>Nid oes data ar gael ar gyfer 2020/21 ac nid oes targed wedi'i bennu yng Nghynllun Corfforaethol 2021/23 Corporate Plan oherwydd Covid -19.</p>						
ELLL - LCL001 – Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth	4877.51	585.03	1918.73	4800.00	 Gwyrdd	 Coch
<p>Ar hyd 2021/22 mae llyfrgelloedd wedi wynebu cyfyngiadau difrifol yn ystod y gwasanaethau maen nhw'n gallu eu darparu o ganlyniad i fesurau diogelwch Covid. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar ffigurau ymwelwyr.</p> <p>Arweiniodd cau llyfrgelloedd yn ystod y pandemig at symud y gwasanaeth ar-lein a gweithio i wella pob agwedd ar y cynnig digidol, a chynyddodd lawrlwytho e-Lyfrau a llyfrau e-Sain yn ddigidol 100% yn 2020/21 a pharhaodd hynny i mewn i 2021/22. Bydd datblygu'r cynnig digidol fel hyn yn arwain at leihau ffigurau gwefan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, wrth i ni gynyddu nifer y ffyrdd y gall ein haelodau ryngweithio â'r Gwasanaeth yn ddigidol.</p>						
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd						
CP/067- Canran y gwastraff a gafodd ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio	61.74	67.56	66.00	64.00	 Ambr	 Gwyrdd
<p>42,870.15 tonnall allan o 64,951.26 tonnall.</p> <p>Perfformiad ailgylchu cyffredinol 2021/22 yw 66.00%, felly mae'r Cyngor wedi llwyddo i ragori ar y targed statudol cyffredol, sef 64%.</p> <p>Er bod y cyngor wedi rhagori ar y targed cyffredol a bennwyd yn genedlaethol, mae'r perfformiad wedi gostwng 1.56% o gymharu â'r llynedd. Er bod y ffaith bod gwastraff wedi gostwng yn gyffredinol, ryw 2,400 o dunelli, yn newyddion da, gwelir hefyd fod lefel y deunydd sych ailgylchadwy a gasglwyd, rhwng Casgliadau Ymyl y Ffordd a Chanolfannau Ailgylchu, hefyd wedi gostwng ryw 630 o dunelli. Ar ben hynny, roedd ailgylchu Llundw Gwaelod Hylosgwyr wedi gostwng ryw 1,260 o dunelli oherwydd problemau gydag argaeledd allfeydd sy'n gwneud defnydd da o'r lludw gwaelod yn ystod 2021/22.</p> <p>Nodir bod y ffigurau gan gynghorau eraill yng Nghymru a ddarparwyd ar WasteDataFlow adeg ysgrifennu hyn yn dangos bod 12 o'r 22 awdurdod lleol wedi profi gostyngiad mewn perfformiad ailgylchu yn 2021/22 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gallai hyn adlewyrchu newidiadau mewn arferion prynu a chiniawa, neu'r parhad mewn newidiadau gweithio gartref, wrth i'r cyfyngiadau Covid gael eu newid a diflannu.</p> <p>Mae bwriad i adolygu strategaeth wastraff y Cyngor yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gan gynnwys seminarau'r holl aelodau, pan fydd angen i'r aelodau ystyried penderfyniadau a chymhellu gweithredu er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyrraedd neu'n rhagori ar y targed statudol nesaf, sef 70% yn 2024/25.</p> <p>Mae'r holl ffigurau a gyflwynir yn amodol ar gael eu dilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).</p>						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/346 - WMT/010i - Canran gwastraff dinesig yr awdurdod lleol a baratowyd i'w aildefnyddio	0.24	0.04	0.18		 Gwyrdd	 AMH
PI/347 - WMT/010ii - Canran gwastraff dinesig yr awdurdod lleol: cyfradd ailgylchu Llundw/Gwastraff gweddilliol o waelod hylogswyr.	2.30	10.18	8.61		 Coch	 AMH
PI/348 - WMT/010ii - Canran gwastraff dinesig yr awdurdod lleol: Cyfradd ailgylchu sych o ymyl y ffordd	22.02	23.43	22.12		 Coch	 AMH
PI/349 - WMT/010ii - Canran gwastraff dinesig yr awdurdod lleol: cyfradd ailgylchu sych Canolfannau Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref	19.84	16.80	18.62		 Gwyrdd	 AMH
PI/350 - WMT/010iii - Canran gwastraff dinesig yr awdurdod lleol a gasglwyd ar ffurf Biowastraff a wahanwyd yn y ffynhonnell, ac a gafodd ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn modd arall	17.22	17.11	16.48		 Ambr	 AMH
CP/068 - Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul person	182.02	209.70	204.37		 Gwyrdd	 AMH
Gostyngodd lefel gyffredinol y gwastraff a gasglwyd yn 2021/22 ryw 2,400 o dunelli, a arweiniodd at welliant yn y dangosydd perfformiad hwn, o 209.7kg/person i 204.37kg/person).						
CP/069 - Canran y strydoedd sy'n lân	93.86	90.98	92.85	91.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Roedd y ffigur o 92.85% ar gyfer strydoedd sy'n lân yn cynrychioli perfformiad y flwyddyn. Fodd bynnag, dylid nodi, er bod data blwyddyn lawn wedi cael ei gofnodi ac ar gael ar gyfer 75% o ardal yr astudiaeth, nad oes ond data o fis Ebrill i fis Rhagfyr ar gael ar gyfer y 25% arall.						
CP/070 - Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio sbwriel a ollyngwyd yn anghyfreithlon.	2.97	2.84	4.52	2.84	 Coch	 Coch
Data blwyddyn lawn 2021/22 yw 5,042 o ddiwrnodau/1,115 o achosion: 4.52 diwrnod. Er bod nifer yr achosion o ollwng sbwriel yn anghyfreithlon yr adroddwyd amdanynt wedi gostwng (1,566 o achosion yn 2020/21), mae'r amser a gymerir i glirio'r gwastraff wedi cynyddu. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod rhai staff wedi cael eu hailgyfeirio i'r Gwasanaethau Gwastraff i roi cefnogaeth gydag effeithiau'r pandemig ynghyd â phroblemau adnoddau staff cyffredinol oherwydd y pandemig.						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/063 – Nifer y swyddi a gafodd eu creu/diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan yr awdurdod lleol	610.00	470.00	410.00	280.00	 Coch	 Gwyrdd
Bu'r tîm yn delio â nifer mawr o geisiadau safonol am gylild gan fusnesau lleol a buddsoddwyr newydd oedd yn awyddus i dyfu, arallgyfeirio a/neu fuddsoddi yn eu gweithrediadau ar hyd 2021/22. Er bod oedi wedi digwydd yn achos rhai prosiectau oherwydd anawsterau cadwyn gyflenwi a achoswyd gan y pandemig a Brexit, mae llawer yn parhau i gyflwyno prosiectau buddsoddi sylweddol sy'n cefnogi cyflogaeth ac adferiad yr economi leol.						
CP/078 - Nifer yr achosion o fynd dros y trothwy PM10 yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Port Talbot / Taibach)	7.00	16.00	27.00	35.00	 Coch	 Gwyrdd
Mesurir yr achosion o fynd dros y trothwy o Orsaf Dân Port Talbot, sef yr orsaf fonitro swyddogol ar gyfer adrodd ar yr amcan ansawdd aer. Mae'r data a gadarnhawyd yn dangos 27 achos o fynd dros y trothwy rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022.						
CP/083 - Canran y ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael	4.99	3.38	2.55	5.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Mae 2.55% o ffyrdd A mewn cyflwr cyffredinol wael. Mae hyn yn well na'n targed o 5% ar gyfer 2021/22 ac yn welliant ar ffigur 2020/21 o 3.4%. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd sydd ryw 855 cilometr o hyd. Mae'r rhwydwaith yn destun ystod gynhwysfawr o arolygon ar archwiliadau technegol bob blwyddyn, a chaiff yr wybodaeth sy'n deillio ohonynt ei gwerthuso i gynhyrchu rhestr wedi'i blaenoriaethu o gynlluniau, yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau bod cyllid cyfnewid yn cael ei wario i sicrhau'r effaith orau. O ganlyniad mae rhai rhannau o ffyrdd a nodwyd gan y dangosyddion perfformiad fel rhai oedd mewn 'cyflwr cyffredinol wael' (ar sail data SCANNER) wedi cael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith diweddar. Ar ben hynny, mae buddsoddiad wedi cael ei gyfeirio hefyd at adrannau eraill o'r rhwydwaith dosbarth A sy'n arddangos nodweddion diffygiol gwahanol i'r rhai yr adroddwyd amdanynt gan SCANNER. Rhagwelir y bydd gwelliannau i ffyrdd dosbarth A yr awdurdod yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau DPA yn ystod y flwyddyn nesaf wrth i'r arolwg SCANNER gydnabod manteision y gwaith diweddar i roi arwyneb newydd ar hyd y rhwydwaith o ffyrdd dosbarth A.						
CP/084 - Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael	2.84	2.09	1.87	5.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Mae 1.9% o'r ffyrdd B mewn cyflwr cyffredinol wael. Mae hyn yn well na'n targed o 5% ar gyfer 2021/22 ac yn welliant ar ffigur 2021/22 o 2.4%. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd sydd ryw 855 cilometr o hyd. Mae'r rhwydwaith yn destun ystod gynhwysfawr o arolygon ar archwiliadau technegol bob blwyddyn, a chaiff yr wybodaeth sy'n deillio ohonynt ei gwerthuso i gynhyrchu rhestr wedi'i blaenoriaethu o gynlluniau, yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau bod cyllid cyfnewid yn cael ei wario i sicrhau'r effaith orau. O ganlyniad						



mae rhai rhannau o ffyrdd a nodwyd gan y dangosyddion perfformiad fel rhai oedd mewn 'cyflwr cyffredinol wael' (ar sail data SCANNer) wedi cael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith diweddar. Ar ben hynny, mae buddsoddiad wedi cael ei gyfeirio hefyd at adrannau eraill o'r rhwydwaith dosbarth B sy'n arddangos nodweddion diffygiol gwahanol i'r rhai yr adroddwyd amdanynt gan SCANNer. Rhagwelir y bydd gwelliannau i ffyrdd dosbarth B yr awdurdod yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau DPA yn ystod y flwyddyn nesaf wrth i'r arolwg SCANNer gydnabod manteision y gwaith diweddar i roi arwyneb newydd ar hyd y rhwydwaith o ffyrdd dosbarth B.

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/085 - Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael	5.68	4.78	4.17	10.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd

Mae 4.17% o'r ffyrdd C mewn cyflwr cyffredinol wael. Mae hyn yn well na'n targed o 10% ar gyfer 2021/22 ac yn welliant ar ffigur 2020/21 o 4.78%.



Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd sydd ryw 855 cilometr o hyd.

Mae'r rhwydwaith yn destun ystod gynhwysfawr o arolygon ar archwiliadau technegol bob blwyddyn, a chaiff yr wybodaeth sy'n deillio ohonynt ei gwerthuso i gynhyrchu rhestr wedi'i blaenoriaethu o gynlluniau, yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau bod cyllid cyfnewid yn cael ei wario i sicrhau'r effaith orau. O ganlyniad mae rhai rhannau o ffyrdd a nodwyd gan y dangosyddion perfformiad fel rhai oedd mewn 'cyflwr cyffredinol wael' (ar sail data SCANNer) wedi cael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith diweddar. Ar ben hynny, mae buddsoddiad wedi cael ei gyfeirio hefyd at adrannau eraill o'r rhwydwaith dosbarth C sy'n arddangos nodweddion diffygiol gwahanol i'r rhai yr adroddwyd amdanynt gan SCANNer. Rhagwelir y bydd gwelliannau i ffyrdd dosbarth C yr awdurdod yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau DPA yn ystod y flwyddyn nesaf wrth i'r arolwg SCANNer gydnabod manteision y gwaith diweddar i roi arwyneb newydd ar hyd y rhwydwaith o ffyrdd dosbarth C.









CP/120 – Faint o dir sydd o dan berchnogaeth y Cyngor neu ei reolaeth sy'n cael ei ddiogelu a/neu o dan reolaeth briodol ar gyfer bioamrywiaeth: Rhan A: Arwynebedd (hectarau)	179.39	179.39	160.65	179.40	 Coch	 Coch
--	--------	--------	--------	--------	---	---









Mae'r ffigur wedi'i seilio ar y rhestr gyfredol o safleoedd cadwraeth natur, sy'n cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, ardaloedd y mae gwaith yn digwydd arnynt ar hyn o bryd fel rhan o brosiectau a ariannir gan grantiau, a safleoedd sy'n rhan o gynllun Caru Gwenyn CNPT.









Daeth y safleoedd Gweithio gyda Natur i ben oherwydd bod grant Llywodraeth Cymru wedi dod i ben, a bod oedi cyn i grant newydd gychwyn. Ychwanegwyd safleoedd eraill fel rhan o gynllun Caru Gwenyn CNPT.









CP/121 - Faint o dir sydd o dan berchnogaeth y Cyngor neu ei reolaeth sy'n cael ei ddiogelu a/neu o dan reolaeth briodol ar gyfer bioamrywiaeth: Rhan B: Hyd (km)	22.79	22.79	23.12	22.80	 Gwyrdd	 Gwyrdd
---	-------	-------	-------	-------	---	---









Mae'r ffigur wedi'i seilio ar y rhestr gyfredol o safleoedd cadwraeth natur, sy'n cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, ardaloedd y mae gwaith yn digwydd arnynt ar hyn o bryd fel rhan o brosiectau a ariannir gan grantiau, a safleoedd sy'n rhan o gynllun Caru Gwenyn CNPT.









Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/113 - Canran o'r holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn brydlon	97.44	95.40	86.94	95.00	 Coch	 Coch
<p>712 o 819 yn 2021/22 o gymharu â 663 o 695 ym mlwyddyn ariannol 2020/21.</p> <p>Mae'r adran gynllunio yn profi cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a'r llwythi gwaith eraill cysylltiedig yn ystod 2021/22, ar adeg pan gollwyd staff profiadol yn ogystal, gan gynnwys y rheolwr datblygu, ac mae staff presennol o dan bwysau, gyda nifer uwch o geisiadau cymhleth yn estyn y tu hwnt i'r terfynau amser a ragwelwyd. Mae hyn wedi arwain at gyfnod lle nad ydym wedi gallu sicrhau cytundeb yn gyson gan asiantau ar gyfer 'estyniadau amser', sydd wedi arwain at ostyngiad mewn perfformiad. Fodd bynnag, rhagwelir mai rhwystr tymor byr yw hyn, y gellir rhoi sylw iddo trwy fwy o ymgysylltiad ag ymgeiswyr ac asiantau ar hyd y broses ymgeisio, yn ogystal â recriwtio staff amnewid.</p>						
PI/280 - Canran yr apeliadau cynllunio a ddiddymwyd	50.00	76.92	43.75	66.00	 Coch	 Coch
<p>Er bod perfformiad yn is na'r disgwyliadau ar hyn o bryd (diddymwyd 3.5 allan o 8 o'r apeliadau), gan mai nifer bychan o apeliadau y penderfynwyd arnynt, bernir bod y sail ar gyfer y penderfyniad yn parhau'n gadarn ac nad oes angen cymryd camau pellach ar hyn o bryd.</p>						
PI/366 - PLA/M002 - Cynllunio – Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd o dderbyn cais hyd ddyddiad cyflwyno penderfyniad – diwrnodau	69.91	76.79	97.62	90.00	 Coch	 Coch
<p>79,949 o ddiwrnodau ar gyfer 819 o geisiadau.</p> <p>Mae'r adran gynllunio yn profi cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a'r llwythi gwaith eraill cysylltiedig yn ystod 2021/22, ar adeg pan gollwyd staff profiadol yn ogystal, gan gynnwys y rheolwr datblygu, ac mae staff presennol o dan bwysau, gyda nifer uwch o geisiadau cymhleth yn estyn y tu hwnt i'r terfynau amser a ragwelwyd. Mae hyn wedi arwain at gyfnod lle mae ceisiadau'n cymryd hwy na'r cyfartaledd i benderfynu arnynt, gyda gostyngiad mewn perfformiad. Fodd bynnag, mae ymdrechion yn parhau i gynnal perfformiad er gwaethaf y pwysau diamheuol mae'r tîm yn ei wynebu, yn arbennig pwysau yn sgîl 'datblygiadau pwysig ar raddfa fawr'. Dylai recriwtio diweddar ddarparu gwelliant yn ystod y flwyddyn nesaf.</p>						
PI/370 - BCT/007 – Canran y ceisiadau 'cynllun llawn' a gymeradwywyd y tro cyntaf.	94.84	94.94	99.23	95.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
<p>Perfformiad yn agos at yr uchaf posibl mewn dangosydd sy'n mesur ein llwyddiant i ryngweithio â'n cwsmeriaid a'u cynorthwyo i sicrhau bod gwaith adeiladu rheoledig yn cael ei gymeradwyo.</p>						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/371 - BCT/004 – Canran y ceisiadau Rheoli Adeiladu ‘cynllun llawn’ a wiriwyd o fewn 15 diwrnod gwaith yn ystod y flwyddyn.	97.42	98.73	100.00	96.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Uchafswm perfformiad sy'n dangos ein bod yn gwirio holl geisiadau'r Cynllun Llawn yn brydlon i hwyluso penderfyniad cyflym i'n cwsmeriaid.						
PI/372 - PLA/004d - Canran yr holl geisiadau cynllunio eraill y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos	79.72	75.45	65.85	81.00	 Coch	 Coch
162 o 246. Mae'r adran gynllunio yn profi cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a'r llwythi gwaith eraill cysylltiedig yn ystod 2021/22, ar adeg pan gollwyd staff profiadol yn ogystal, ac mae staff presennol o dan bwysau, gyda nifer uwch o geisiadau yn estyn y tu hwnt i'r terfynau amser a ragwelwyd. Mae hyn wedi arwain at gyfnod lle mae ceisiadau'n cymryd hwy na'r cyfartaledd i benderfynu arnynt, gan arwain at ostyngiad mewn perfformiad. Fodd bynnag, mae ymdrechion yn parhau i gynnal perfformiad er gwaethaf y pwysau diamheuol mae'r tîm yn ei wynebu, yn arbennig pwysau yn sgîl 'datblygiadau pwysig ar raddfa fawr'.						
PI/373 - PLA/M004 - Canran y ceisiadau cynllunio pwysig y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos	31.58	25.00	7.14	40.00	 Coch	 Coch
1 allan o 14. Mae'r adran gynllunio yn profi cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a'r llwythi gwaith eraill cysylltiedig yn ystod 2021/22, ar adeg pan gollwyd staff profiadol yn ogystal, gan gynnwys y Rheolwr Datblygu, ac mae staff presennol o dan bwysau, gyda nifer uwch o geisiadau yn estyn y tu hwnt i'r terfynau amser a ragwelwyd. Mewn amgylchedd o'r fath mae datblygiadau mawr bron bob amser yn mynd i gymryd mwy nag 8 wythnos i benderfynu arnynt. Bydd y cynnydd sylweddol mewn datblygiadau pwysig ar raddfa fawr yn golygu, yn y dyfodol, bod y targed hwn yn anochel yn un anodd ei gyrraedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig dros ben sicrhau ein bod yn gweithio ar y cyd â datblygwyr i gadw at eu terfynau amser hwythau lle bynnag y bo hynny'n ymarferol bosibl, gan gynnwys gyd-drafod Cytundebau Perfformiad Cynllunio i helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer y gwasanaethau cynllunio a rhai cysylltiedig.						
PI/374 - PLA/004c - Canran ceisiadau cynllunio perchnogion tai y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos	91.21	76.87	71.16	97.00	 Coch	 Coch
269 allan o 378. Mae'r adran gynllunio yn profi cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a'r llwythi gwaith eraill cysylltiedig yn ystod 2021/22, ar adeg pan gollwyd staff profiadol yn ogystal, ac mae staff presennol o dan bwysau, gyda nifer uwch o geisiadau yn estyn y tu hwnt i'r terfynau amser a ragwelwyd. Fodd bynnag, mae'r perfformiad o ran datblygiadau perchnogion tai wedi dioddef mwy na'r disgwyl, oherwydd bod rhaid rhannu'r llwyth gwaith ymhlith llai o swyddogion oherwydd pwysau gwaith. Rydym ni'n ymdrechu i sicrhau ein bod ni'n nes at gyflawni'r lefelau perfformiad blaenorol, a oedd yn uchel iawn.						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/375 - PLA/004b - Canran y mân geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos	78.11	57.58	44.20	80.00	 Coch	 Coch
80 allan o 181. Mae'r adran gynllunio yn profi cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a'r llwythi gwaith eraill cysylltiedig yn ystod 2021/22, ar adeg pan gollwyd staff profiadol yn ogystal, ac mae staff presennol o dan bwysau, gyda nifer uwch o geisiadau yn estyn y tu hwnt i'r terfynau amser a ragwelwyd. Fodd bynnag mae'r perfformiad o ran mân geisiadau wedi dioddef mwy na'r disgwyl, ac mae ymdrechion yn parhau i sicrhau ein bod ni'n nes at gyflawni'r lefelau perfformiad blaenorol, a oedd yn uchel iawn.						
PI/376 - PLA/002 - Canran y ceisiadau datblygu y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn a gymeradwywyd	97.84	96.55	94.51	95.00	 Ambr	 Ambr
774 allan o 819. Mae'r perfformiad yn parhau'n unol â lefelau hanesyddol.						
PI/380 - PLA/M001 – Cynllunio – yr amser a gymerir ar gyfartaledd o dderbyn cais hyd ddilysu'r cais – diwrnodau.	11.92	12.76	16.92	15.00	 Coch	 Coch
Gwelir gwelliant bychan yn ystod chwarter olaf 2021/2022, ond yn gyffredinol mae cynnydd bychan ar draws y flwyddyn. Mae'r adran gynllunio yn profi cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a'r llwythi gwaith eraill cysylltiedig yn ystod 2021/22, ar adeg pan gollwyd staff profiadol yn ogystal, ac mae staff presennol o dan bwysau. Gwaetha'r modd, mae hyn wedi cael effaith o ganlyniad ar ddilysu ceisiadau, er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i roi sylw i hyn, gan gynnwys dychwelyd ceisiadau annilys os nad yw diffygion yn derbyn sylw o fewn 14 diwrnod. A darparu gwelliannau l gynlluniau a dylunio cyn cofrestru.						
PI/430 - Canran y cyflenwadau dŵr preifat lle cynhaliwyd asesiad risg yn unol â safonau dŵr yfed		100.00	0.00	100.00	 Coch	 Coch
Ni chynhaliwyd asesiadau risg ar gyflenwadau dŵr preifat yn ystod 2021/22 oherwydd pwysau gwaith ac oherwydd cyfyngiadau Covid-19, fodd bynnag, cynhelir dulliau ymyrraeth amgen yn unol â chyfarwyddyd gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/432 - Nifer y llwybrau hygyrch a gynyddwyd (fesul cilometr) yn unol â'r Map o'r Llywybrau Presennol a'r Map o'r Rhwydwaith Integredig – llwybrau Cerddwyr	0.00	0.00	-14.34	2.00	 Coch	 Coch
<p>Oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi newid meini prawf archwilio Teithio Llesol, mae nifer y llwybrau hygyrch i gerddwyr sy'n bodloni safonau teithio llesol wedi gostwng 14.34km (o 47.143 km i 32.803 km).</p> <p>Ar ben hynny, mae maen prawf newydd: Bydd y cynnydd yn nifer y llwybrau hygyrch (fesul KM) yn unol â'r Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol (ATNM) – Defnydd a Rennir, yn cael ei ychwanegu fel Dangosydd Perfformiad (DP) i adroddiad 2022/23 y flwyddyn nesaf. Ar 31 Mawrth 22, mae genny mar hyn o bryd 28.284 km o lwybrau defnydd a rennir, sy'n bodloni safonau teithio llesol yn CNPT.</p>						
PI/433 - Nifer y llwybrau hygyrch a gynyddwyd (fesul cilometr) yn unol â'r Map o'r Llywybrau Presennol a'r Map o'r Rhwydwaith Integredig – llwybrau Beicwyr	2.88	3.75	-24.19	2.00	 Coch	 Coch
<p>Oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi newid meini prawf archwilio Teithio Llesol, mae nifer y llwybrau beicio hygyrch sy'n bodloni safonau teithio llesol wedi gostwng 24.191 km (o 36.402 km i 12.211 km).</p> <p>Ar ben hynny, mae maen prawf newydd: Bydd y cynnydd yn nifer y llwybrau hygyrch (fesul KM) yn unol â'r Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol (ATNM) – Defnydd a Rennir, yn cael ei ychwanegu fel Dangosydd Perfformiad (DP) i adroddiad 2022/23 y flwyddyn nesaf. Ar 31 Mawrth 22, mae gennym ar hyn o bryd 28.284 km o lwybrau defnydd a rennir, sy'n bodloni safonau teithio llesol yn CNPT.</p>						
PI/458 - Nifer yr ymwelwyr â Chanol Tref Castell-nedd					 AMH	 AMH
Gosodwyd cyfrifwyr unigolion, ond nid oes data ystyrlon ar gael eto.						
PI/459- Cyflwyno swyddfeydd a safleoedd diwydiant ysgafn o safon uchel ar gyfer ehangu mewnfuddsoddi		38000.00	498.00		 AMH	 AMH
<p>Mae'r gwaith o adnewyddu'r swyddfeydd yn hen ffatri Metal Box bellach wedi'i gwblhau, ac mae tenantiaid eisoes yn symud i mewn, gyda galw mawr am yr arwynebedd llawr sy'n weddill. Mae cais am gyllid pellach yn cael ei gyflwyno er mwyn cyflwyno rhagor o swyddfeydd a lle ar gyfer diwydiannau ysgafn ar y safle.</p> <p>Mae adnewyddu'r adeilad rhestredig yn 8 Stryd y Gwynt, Castell-nedd, hefyd wedi'i gwblhau yn awr, ac mae lle o safon uchel ar gael i fusnesau yng nghanol y dref. Mae'r gwaith yn agos at gael ei gwblhau ar Ganolfan newydd Technoleg y Bae ar Barc Ynni Baglan a Sinema'r Plaza gynt ym Mhort Talbot, a fydd fel ei gilydd yn darparu meithrinfa y mae mawr angen amdani ar gyfer busnesau, a bydd datblygiadau pellach yng Nglannau'r Harbwr yn mynd rhagddynt ar hyd y flwyddyn ariannol nesaf.</p> <p>Dim targed wedi'i bennu ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn.</p>						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/463 - % y contractau a ddyfarnwyd i gwmnïau lleol o ganlyniad i gyflwyno cymalau budd cymunedol yn nhendrau'r Cyngor	30.00	36.00	36.00		 Gwyrdd	 AMH
<p>Er gwaethaf cyfyngiadau ar safleoedd a diffyg staff a chyflenwadau, mae gwaith ar brosiectau adeiladu'r Cyngor wedi parhau ar hyd y flwyddyn, gyda phrosiectau'n cynnig amrywiol gyfleoedd hyfforddi a phrofiad gwaith i bobl leol. Er bod un o'r prif gontractwyr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr y llynedd, mae'r allbynnau'n fwy na boddhaol, yn enwedig gan fod cyfyngiadau Covid wedi effeithio'n sylweddol ar y sector adeiladu yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf.</p> <p>Ni phenwyd targedau ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn oherwydd yr effaith roedd Covid wedi'i chael ar y sector adeiladu.</p>						
PI/464 - Nifer y gweithredwyr twristiaeth a gefnogwyd gan y cyngor	62.00	53.00	17.00		 Coch	 AMH
<p>Mae 2 ddarparwr twristiaeth newydd a 5 arfaethedig (gan gynnwys llety a gweithgareddau/atyniadau) wedi cael eu cefnogi yn ystod 2021/22, ac roedd y llety newydd neu arfaethedig yn cynnwys llety hunanarlwyo neu wersyllfa yn bennaf o fewn y sir.</p> <p>Cynorthwywyd 10 ddarparwr twristiaeth presennol hefyd gydag ymholiadau oedd yn amrywio o gydymffurfio â chanllawiau cyfredol Covid-19 i ehangu darpariaeth dwristiaeth bresennol (gan gynnwys llety â gwasanaethau a darpariaeth wersylla). At ei gilydd bu gostyngiad yn y busnesau sector twristiaeth sy'n ceisio cymorth yn ystod 2021/22 wrth i'r sector geisio adfer wedi'r pandemig.</p>						
PI/465 - Nifer y camau gweithredu o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a gyflawnwyd	29.00	14.00	26.00		 Gwyrdd	 AMH
<p>Ymhlith y camau gweithredu mae llunio cynllun rheoli i ymwelwyr, gan roi strategaethau ar waith i reoli pwysau ymwelwyr ar safleoedd allweddol a sicrhau cyllid i gyflwyno 'Man Newid' hygyrch ar Lan y Môr yn Aberafan. Mae'r camau gweithredu hefyd yn cynnwys cyflwyno Parc Gwledig y Sgydau a'r Prosiect Peilota Reid, gosod byrddau dehongli newydd ym Maes Parcio Camlas Resolfen, a lansio ymgyrch gwefan cyrchfan a marchnata cyrchfan 'Calon Ddramatig Cymru', sy'n cyflawni camau gweithredu marchnata yn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau.</p> <p>Hefyd ailgychwynnodd y grwpiau Rhanddeiliaid Twristiaeth ar gyfer Glan Môr Aberafan a Pharc Coedwig Afan, a chyfarfod yn achlysurol.</p>						
4 Llywodraethiant ac Adnoddau (croestoriadol) – Sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei reoli i fwyafu'r manteision hirdymor i ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot						
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr						
CP/086 - Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul cyflogai – diwrnodau CALI a gollwyd oherwydd salwch	12.13	8.13	13.28	8.40	 Coch	 Coch
<p>Mae salwch wedi cynyddu ar draws pob maes gwasanaeth (ac eithrio eiddo ac adfywio, lle mae wedi lleihau rywfaint). Cadarnhawyd mai Covid-19 yw prif achos absenoldeb salwch, ac mae nifer y diwrnodau CALI a gollwyd dros 3 gwaith yn uwch am y rheswm absenoldeb hwn o gymharu â 2020/21.</p>						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/088 - Nifer yr argymhellion statudol a wnaed gan archwilyr allanol y cyngor ar drefniadau cynllunio strategol a gweithrediadol	0.00	0.00	0.00	0.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Derbyniwyd Adroddiad Crynodeb Archwilio Blyneddol Archwilio Cymru ar gyfer 2021 yn gynnar ym mis Mawrth, ac adroddwyd arno i'r Cyngor ar 16 Mawrth 2022. Nid oedd argymhellion statudol ynghylch trefniadau cynllunio strategol a gweithredol gan archwilyr allanol y Cyngor.						
CP/097 - CS/001 – Gwasanaethau Cwsmeriaid – amserau aros cyfartalog cwsmeriaid (wyneb yn wyneb)	8.00			10.00	 AMH	 AMH
Nid oes data ar gael ar gyfer 2020/21 na 2021/22 oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Nid yw Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi bod yn delio â galwyr wyneb yn wyneb ers dechrau'r pandemig. Ers i'r canolfannau dinesig ailagor i raddau cyfyngedig ym mis Medi 2020, dim ond galwyr ag apwyntiad sydd wedi cael mynediad i'r adeiladau Dinesig i fynychu cyfarfodydd gyda swyddogion dynodedig. Nid yw Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi monitro'r galwyr hyn, gan fod eu swyddog/Gwasanaeth cyfrifol wedi delio â nhw'n uniongyrchol.						
CP/098 - CS/004 - Gwasanaethau Cwsmeriaid – canran y cwsmeriaid a adawodd cyn cael eu gweld	0.34			0.50	 AMH	 AMH
Nid oes data ar gael ar gyfer 2020/21 na 2021/22 oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Nid yw Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi bod yn delio â galwyr wyneb yn wyneb ers dechrau'r pandemig. Ers i'r canolfannau dinesig ailagor i raddau cyfyngedig ym mis Medi 2020, dim ond galwyr ag apwyntiad sydd wedi cael mynediad i'r adeiladau Dinesig i fynychu cyfarfodydd gyda swyddogion dynodedig. Nid yw Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi monitro'r galwyr hyn, gan fod eu swyddog/Gwasanaeth cyfrifol wedi delio â nhw'n uniongyrchol.						
CP/101 - CS/002a – Gwasanaethau Cwsmeriaid – amser ar gyfartaledd (eiliadau) i ateb galwadau ffôn yn Gymraeg	45.00	51.00	57.00	40.00	 Coch	 Coch
Perfformiad blwyddyn lawn 2021/22 yw 57 eiliad. Isod dadansoddir perfformiad ar draws pob un o'r 4 chwarter unigol, sy'n dangos gwelliant sylweddol yn ail hanner 2021/2022:						
Chwarter 1 (Ebrill 21-Mehefin 21): Gwirioneddol 66 Eiliad						
Daliwyd ati i gynnal yr opsiwn canolfan gyswllt Gymraeg. Fodd bynnag, bydd hyn bob amser yn adlewyrchu'r galw cyffredinol o ran yr holl alwadau eraill sy'n dod i mewn. Nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n pennu'r amser aros cyfartalog am ateb. Yn yr achos hwn, oherwydd bod gennym ni lai o siaradwyr Cymraeg fel cyfran o'r staff sydd ar gael yn gyffredinol, mae'n debygol y bydd cynnydd yn yr amser aros o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer yr opsiwn Saesneg, sydd â staff llawn.						
Chwarter 2 (Gorffennaf 21-Medi 21): Gwirioneddol 76 Eiliad						
Profwyd nifer o broblemau Salwch a oedd i bob pwrpas yn golygu bod llai o staff ar gael ar gyfer y chwarter cyfan. Gostyngodd hyn gyfanswm nifer yr holl staff oedd ar gael 25% ar hyd y chwarter. Gwaethygydd hyn gan y galw uchel oedd ar yr adnodd staff yn ystod y chwarter hwn yn yr holl giwiau gweithredol.						



Chwarter 3 (Hydref 21-Rhagfyr 21): Gwirioneddol 44 Eiliad

Gan fod y gwasanaeth wedi dychwelyd at lefelau gweithredol llawn yn Chwarter 3, gwelwyd y gostyngiad yn y perfformiad tri-misol yn dod i lawr o amser ateb cyfartalog o 76 eiliad yn chwarter 2 i 44 eiliad yn Chwarter 3. Galluogwyd hyn oherwydd bod adnoddau staffio llawn ar gael, a thrwy ddod â staff yn ôl i amgylchedd y ganolfan gyswllt. Galluogodd hyn staff Cymraeg eu hiaith i sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar gael trwy reoli egwyliu ac absenoldebau fel rhan o'r drefn feunyddiol.

Chwarter 4 (Ionawr 22-Mawrth 22): Gwirioneddol 49 Eiliad

Roedd lefel y galwadau wedi codi i 1,215 yn 2022 o gymharu â 1,043 yn y flwyddyn flaenorol, 2021, ac mae lefel twf o 14%, ynghyd â'r nifer cyfyngedig o siaradwyr Cymraeg yn yr adran yn dal i gyfyngu ar ein gallu i ddelio ag ymholiadau Cymraeg o fewn y targed a bennwyd. Rydym ni'n parhau i ganfod bod ymholiadau switsfwrdd yn cymryd amser sylweddol hwy i ddelio â nhw o gymharu â chyn y pandemig, gan fod gwasanaethau wedi newid eu modelau gweithredu er mwyn addasu. Mae'r effeithiau ar yr opsiwn Saesneg yn cael eu chwyddo yn achos y gwasanaeth Cymraeg. Rydym ni'n parhau i geisio gwrthweithio'r problemau hyn, ond mae'r mater hwn wedi effeithio ar yr amser a gymerir i ddelio ag ymholiadau cyffredinol gyflym, gydag effaith o ganlyniad ar draws pob gwasanaeth.

Rydym ni'n gwrthweithio'r diffyg argaeledd o ran staff Cymraeg eu hiaith trwy gynyddu'r staff sy'n medru'r Gymraeg yn ystod prosesau recriwtio sydd i ddod yn 2022.

CP/102 - CS/002b – Gwasanaethau Cwsmeriaid – Amser ar gyfartaledd (eiliadau) i ateb galwadau ffôn yn Saesneg	52.00	43.00	44.00	40.00	 Ambr	 Coch
--	-------	-------	-------	-------	---	---

Perfformiad blwyddyn lawn 2021/22 yw 44 eiliad. Isod dadansoddir y perfformiad ar draws pob un o'r 4 chwarter unigol, a gwelir gwelliant sylweddol yn ail hanner 2021/22:

Chwarter 1 (Ebrill 21-Mehefin 21): Gwirioneddol 49 Eiliad

Profwyd newid wrth i'r galw tymhorol gynyddu yn ystod chwarter 1. Roedd problemau'n parhau o ran sicrhau bod galwadau switsfwrdd yn cyrraedd rhannau eraill o'r cyngor oherwydd diffyg argaeledd staff a diffyg negeseuon ffôn addas i reoli disgwyliadau galwyr. Roedd un achos o salwch tymor hir ac un aelod o staff heb fod ar gael. Bu'r gwasanaethau cwsmeriaid yn parhau i dderbyn cysylltiadau ychwanegol oherwydd y problemau llifogydd yn Sgiwen ar ddechrau 2021. Roedd cynnydd sylweddol yn y cysylltiadau digidol megis e-bost a ffurflenni ar-lein yn dod i'r gwasanaethau cwsmeriaid, gan gynnwys y cynnydd sylweddol mewn ymholiadau Bathodynnau Glas ar-lein. O ganlyniad roedd galw cynyddol am brosesu, a arweiniodd at lai o adnoddau i ddelio ag ymholiadau ffôn.

Chwarter 2 (Gorffennaf 21-Medi 21): Gwirioneddol 63 Eiliad









Yn hanesyddol dyma ein chwarter prysuraf. Effeithiodd nifer uwch o alwadau tymhorol ar berfformiad. Arweiniodd salwch hirdymor ymhlith y staff a gwyliau blynyddol staff yn ystod y cyfnod hwn at gyfuniad o fwy o alw a llai o adnoddau, a effeithiodd yn sylweddol ar amserau ateb. Daliwyd i wynebu problemau o ran methiant i sicrhau bod galwadau switsfwrdd yn cyrraedd rhannau eraill o'r cyngor.





Chwarter 3 (Hydref 21-Rhagfyr 21): Gwirioneddol 37 Eiliad







Er i ni barhau i brofi anawsterau oherwydd salwch hirdymor, a rhoi mesurau staffio ar waith i geisio gwrthweithio amserau aros ar gyfer galwadau, mae newidiadau wedi dechrau dod i rym ac fe leihawyd yr effaith ar yr amserau aros am ateb gan y newid yn y galw tymhorol. Daliwyd ati i weithio gyda meysydd gwasanaeth i leihau'r galw yn sgîl methiant.









Chwarter 4 (Ionawr 22-Mawrth 22): Gwirioneddol 24 Eiliad







Cafwyd nifer o stormydd garw yn chwarter 4, a fu'n sbarduno'r galw ar adegau penodol. Fodd bynnag, nid oedd gennym salwch hirdymor bellach ymhlith staff y ganolfan alwadau, a dechreuwyd dod â gweithwyr trin galwadau yn ôl i'r Ceiau, gan wella perfformiad a chadernid y tîm. Daliwyd ati i weithio gyda meysydd gwasanaeth i leihau'r galw yn sgîl methiant. Mae dulliau cyswllt cwsmeriaid wedi newid ar hyd y flwyddyn, ac ers dechrau 2020 rydym ni'n gweld cynnydd sylweddol mewn cysylltiadau digidol megis e-bost a ffurflenni ar-lein yn dod i'r gwasanaethau cwsmeriaid, gan gynnwys y cynnydd sylweddol mewn ymholiadau Bathodyn Glas ar-lein.









Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/105 - CFH/008 - Canran y trethi annomestig oedd yn ddyledus ar gyfer y flwyddyn ariannol a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol	98.71	98.06	98.90	98.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Rhagorwyd ar y targed o ran cyfradd casglu yn 2021/22.						
CP/106 - PAY/001 - Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod	94.25	93.35	94.15	95.00	 Gwyrdd	 Ambr
Cyfanswm nifer yr anfonebau a dalwyd hyd at ddiwedd y 4ydd chwarter, 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2022, oedd 103,865. Y cyfanswm a dalwyd o fewn 30 diwrnod oedd 97,790. Mae hyn yn is na'r targed ond o fewn y lefel ddisgwyliedig o berfformiad. Mae gweithio gartref wedi cael effaith ar berfformiad, ond nid yn sylweddol, ac rydym wedi parhau i dalu ein cyflenwyr er gwaethaf dyfodiad y pandemig.						
Yn ystod 2021/2022 swm y llog a dalwyd i gyflenwyr oedd dim. Swm y llog yr oedd y cyngor yn atebol i'w dalu oedd £123,415.66						
CP/107 - CFH/007 - Canran treth y cyngor oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn ariannol a dderbyniwyd gan yr awdurdod	98.07	97.54	98.01	97.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Rhagorwyd ar y targed o ran cyfradd casglu yn 2021/22.						
CP/114 - Canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg	20.62	22.47	21.98		 Gwyrdd	 AMH
Data 31 Mawrth 2022 yw 22.77%: 31,400 o siaradwyr Cymraeg a phoblogaeth y bobl 3 oed a throsodd yn y fwrdeistref oedd 137,900.						
Cymerir y data hwn o setiau data BLYNYDDOL yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APS), sy'n cael ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae'r data i Gymru yn cael ei seilio ar sampl yr ychwanegir ato (tua 350 y cant yn fwy) o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Cesglir dataPS ar hyd y flwyddyn, ac mae'n cael ei gyhoeddi ar gyfer blynyddoedd calendr. NID yw'r data'n cyfateb yn union i'r cyfartaleddau blynyddol sy'n deillio o'r setiau data ar gyfer y 4 chwarter ym mhob blwyddyn oherwydd gwahaniaethau yn y strwythur sampl.						
Wrth i gyfyngiadau gael eu dileu ar hyd 2021/22 bu modd i'r cyngor a'i sefydliadau partner gynyddu sesiynau gweithgaredd/dysgu wyneb yn wyneb er mwyn annog a chefnogi plant a phobl ifanc/rhieni/y cyhoedd i ddefnyddio Cymraeg gartref ac mewn cyd-destunau cymdeithasol eraill. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd yn nifer y lleoedd gofal plant ac ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, agor lleoliad gofal plant newydd cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â digwyddiadau/gweithgareddau cymdeithasol i helpu'r cyhoedd yn fwy cyffredinol i ddysgu a gwella'u sgiliau iaith.						
Bydd cynnydd manylach ar gael yn Strategaeth Hybu'r Gymraeg Adroddiad Blynyddol 2021/22, a gyhoeddir erbyn diwedd Rhagfyr 2022.						











Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/122 – Nifer y gwasanaethau newydd sydd ar gael ar-lein	22.00	11.00	16.00	12.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
<p>Dyma'r 16 o wasanaethau newydd sydd ar gael ar-lein:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Canllaw newydd ailgylchu a gwastraff ar-lein - Ffurflen Ar-lein ar gyfer Dyfarniad Maer CNPT - Wefan Swyddi CNPT - Taliadau costau byw - Gwasanaeth Garejys Cartref ar-lein - Gwasanaeth Llyfrgell Teithiol - Gwasanaeth Diogelwch Ffyrdd Ar-lein - Ailddylunio'r rhyngwyneb corfforaethol ar y we yn unol â safonau GDS (Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth) - Cynllun talu'r gweithlu gofal cymdeithasol - Cymunedau dros waith - Cwrsela yn yr Ysgol - Taliad tanwydd y gaeaf - Grant trethi busnes - Cofrestru ar gyfer y Patrôl Pawennau - Gwasanaeth newydd ar-lein ar gyfer CNPT Mwy Diogel - Gwasanaeth newydd ar-lein ar gyfer y Mawndiroedd Coll 						
CP/123 – Nifer y trawiadau ar y Wefan Gorfforaethol - a) Tudalennau Cymraeg	34045.00	23423.00	29177.00	25000.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
<p>Gall sicrhau trawiadau ar y wefan yn yr hinsawdd presennol fod yn heriol dros ben. Mae swyddogion yn gweithio i wella'r llywio o amgylch y wefan gorfforaethol er mwyn lleihau nifer y tudalennau yr edrychir arnynt, fel bod modd i gwsmeriaid gyrraedd yr wybodaeth angenrheidiol gan glicio cyn lleied o weithiau â phosibl. Bydd hyn yn cael yr effaith net o leihau'r fetreg hon. Wrth symud ymlaen byddwn ni'n archwilio 'boddhad cwsmeriaid' yn hytrach na chyfrif nifer y trawiadau yn unig.</p> <p>Targed Cynllun Corfforaethol 2021-23 oedd cynyddu nifer y trawiadau.</p>						





Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
CP/124 - Nifer y trawiadau ar y Wefan Gorfforaethol - a) Tudalennau Saesneg	3542253.00	3980097.00	4890770.00	3990000.00	 Gwyrdd	 Gwyrdd
<p>Gall sicrhau trawiadau ar y wefan yn yr hinsawdd presennol fod yn heriol dros ben. Mae swyddogion yn gweithio i wella'r llywio o amgylch y wefan gorfforaethol er mwyn lleihau nifer y tudalennau yr edrychir arnynt, fel bod modd i gwsmeriaid gyrraedd yr wybodaeth angenrheidiol gan glicio cyn lleied o weithiau â phosibl. Bydd hyn yn cael yr effaith net o leihau'r fetreg hon. Wrth symud ymlaen byddwn ni'n archwilio 'boddhad cwsmeriaid' yn hytrach na chyfrif nifer y trawiadau yn unig.</p> <p>Targed Cynllun Corfforaethol 2021-23 oedd cynyddu nifer y trawiadau.</p>						
CP/125 - % yr Etholwyr Llywodraeth Leol a ddilyswyd ac a gofrestrwyd i bleidleisio (ar hyd pob llwybr): Llwybr 1: Paru data lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) Llwybr 2: Eiddo heb eu paru Llwybr 3: Eiddo meddiannaeth luosog, e.e. cartrefi gofal preswyl a llety i fyfyrwyr			97.25	96.50	 AMH	 Gwyrdd
<p>O ran cyfradd gyffredinol cofrestru pleidleiswyr, rydym wedi rhagori ar ein targed ar gyfer 2021/22. Cyflawnwyd hyn yn sgîl paru ffynonellau data lleol a chenedlaethol, a gyflwynwyd y llynedd. Mae'r 'cam data' newydd yn golygu bod modd ailgofrestru etholwyr a 'barwyd' yn awtomatig, ac mae wedi bod o gymorth sylweddol i wella a chynnal cyfraddau cofrestru ar draws Castell-nedd Port Talbot, yn enwedig gan fod ein hetholaeth yn dal yn gymharol ddisymud, heb fawr ddim cynnwrf yn y boblogaeth.</p> <p>Ymhellach mae'r gwaith a wnaed ynghylch gwella cyfraddau cofrestru pobl ifanc 16/17 oed a Thramorwyr Cymwys hefyd wedi cynorthwyo wrth liniaru'r effeithiau er mwyn ehangu'r cylch a chynyddu maint y corff o etholwyr er mwyn sicrhau bod cyfradd gyffredinol cofrestru pleidleiswyr ar draws y Fwrdeistref Sirol yn parhau'n gadarn a sefydlog.</p> <p>Dangosydd perfformiad newydd ar gyfer 2021/22.</p>						
PI/163 - Cyfathrebu – Ystafell newyddion ar-lein: Nifer y trawiadau ar dudalen yr ystafell newyddion	37789.00	25213.00	15818.00		 Coch	 AMH
<p>Mae nifer y trawiadau ar dudalen yr Ystafell Newyddion yn ystod 2021/22 wedi gostwng o gymharu â blynyddoedd adrodd blaenorol. Mae hynny'n bennaf yn sgîl pwyslais cynyddol ar bostio mwy o gynnwys newyddion yn uniongyrchol ar sianeli cymdeithasol neu gysylltu'n uniongyrchol â thudalennau glanio perthnasol, yn hytrach na chyfeirio traffig i dudalen yr ystafell newyddion.</p> <p>Mae'r holl fesurau perfformiad cyfathrebu yn cael eu hadolygu ar gyfer 2022/23.</p> <p>Dim targed wedi'i bennu ar gyfer 2021/22.</p>						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/164 – Cyfaatrebu - Ystafell newyddion ar-lein: Nifer y trawiadau ar ddatganiadau i'r wasg	165605.00	176282.00	78104.00		 Coch	 AMH
Fel yn achos PI/163 uchod, mae gwahaniaeth amlwg rhwng ffigurau 2021/22 a blynyddoedd adrodd blaenorol. Eto mae hyn yn sgîl y pwyslais tactegol cynyddol ar bostio cynnwys newyddion allweddol yn uniongyrchol ar y sianeli cymdeithasol yn hytrach na chynhyrchu trawiadau ar y gonfa ddata o ddatganiadau i'r wasg.						
PI/166 - Cyfathrebu – E-gylchgrawn: Nifer y tanysgrifwyr (wedi'u rhannu'n Gymraeg, Saesneg a Dwyieithog)	1256.00	1972.00	2251.00		 Gwyrdd	 AMH
<p>Dadansoddiad o ddata 2021/22: Saesneg: 2,186, Cymraeg: 17, Dwyieithog: 48</p> <p>Mae nifer y tanysgrifwyr i 'Newyddion CNPT' wedi parhau i gynyddu'n gyson, er bod y gweithgarwch i'w cynyddu wedi bod yn gyfyngedig oherwydd bod Covid-19 yn parhau ac yn sgîl cyfathrebiadau adfer.</p> <p>Hefyd bu mwy o reolaeth ragweithiol ar y rhestrau postio i ddileu cyfeiriadau e-bost segur, e.e. aelodau staff oedd wedi ymuno â'u cyfeiriadau e-bost @npt.gov.uk, ond sydd ers hynny wedi gadael yr awdurdod.</p> <p>Dim targed wedi'i bennu ar gyfer 2021/22</p>						
PI/172 - Cyfathrebu – Cyfathrebu â chyflogion: Nifer y trawiadau ar hanesion 'Newyddion Cyflogion' ar y fewnrwyd/porthol staff	47372.00	27411.00			 AMH	 AMH
<p>Mae gwaith wedi parhau i adolygu a datblygu sianeli cyfathrebu mewnol newydd, er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb yn y ffordd orau i staff sy'n gweithio gartref ac nad ydynt mewn swyddfeydd.</p> <p>Gan fod y fewnrwyd ar gael i gyflogion sydd â mynediad at ddyfeisiau'r cyngor yn unig, mae pwyslais cynyddol ar sianeli eraill wedi golygu nad hanesion 'Newyddion Cyflogion' yw'r brif ffynhonnell o wybodaeth i'r staff bellach. O ganlyniad, mae nifer y trawiadau ar y tudalennau hyn yn llai nag wrth adrodd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu cylchlythyron e-bost wythnosol 'Sway' i'r staff, ac yn dilyn astudiaeth beilot, estyn cwmpas rhwydwaith cymdeithasol menter 'Yammer'.</p> <p>Wrth symud ymlaen, byddwn ni'n canolbwyntio ar y sianeli mwy newydd wrth fonitro perfformiad.</p> <p>Nid yw ffigurau terfynol diwedd blwyddyn y dangosydd hwn wedi cael eu coladu eto, oherwydd problem gyda Google Analytics</p>						
PI/217- Cyfathrebu – Nifer y trawiadau ar ein tudalen ymgynghori ar y we	5710.00	2065.00	2238.00		 Gwyrdd	 AMH
Roedd llawer o weithgarwch ymgynghori'r cyngor yn ystod blwyddyn adrodd 21/22 yn rhan o ymgyrch #DewchiSgwrsioCNPT, sydd â'i thudalen lansio ei hun: https://www.npt.gov.uk/letstalk yn hytrach nag annog trawiadau ar y brif dudalen ymgynghori.						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/314 - Gwasanaethau Cyfreithiol – Nifer y tendrau a ddyfarnwyd i Fentrau Bach a Chanolig (BaCh) a Gweithredwyr Lleol	33.00	14.00	131.00		 Gwyrdd	 AMH
<p>Cyfanswm nifer y tendrau (h.y. contractau neu gytundebau) a ddyfarnwyd i Fentrau Bach a Chanolig a Chyflenwyr Lleol yw 131, ac o'r rheiny:</p> <p>Cyfanswm nifer y contractau/cytundebau a ddyfarnwyd i gyflenwyr lleol yw 54</p> <p>Cyfanswm nifer y contractau/cytundebau a ddyfarnwyd i Fentrau Bach a Chanolig yw 130.</p> <p>Mae'r cynnydd yn y nifer yn 2021/22 yn gysylltiedig â nifer y cyflenwyr unigol a benodwyd i'r Cytundeb Fframwaith Trafnidiaeth newydd (50-51 o gyflenwyr ar gyfer un cytundeb).</p>						
PI/320 – Nifer y Genedigaethau, y Marwolaethau, y Priodasau a'r Partneriaethau Sifil	1425.00	1495.00	1472.00		 AMH	 AMH
<p>Rhennir y ffigur o 1,472 ar gyfer 2021/22 isod, ac mae'n cymharu â 1,495 yn 2020/21, gyda'r ffigurau (a nodir ag *) wedi codi oherwydd y cynnydd mewn gwasanaethau a gynigir gan y Swyddfa Gofrestru.</p> <p>Dadansoddir y 1472 yn fanylach isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Marwolaethau: 965 (cofrestrwyd 241 o farwolaethau rhwng Ionawr a Mawrth 2022). Cofrestrwyd 1,095 o farwolaethau yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 • Genedigaethau: 205 (dim ond 7 genedigaeth a gofrestrwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2022, sydd eto'n sylweddol is na'r disgwyl oherwydd bod y ganolfan roi genedigaeth yn ysbyty Castell-nedd Port Talbot wedi cau dros dro oherwydd prinder staff yn Singleton). Cofrestrwyd 268 o enedigaethau yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21. • Genedigaethau Marw: 0 yn 2021/22 a 2020/21 • Priodasau/Partneriaethau Sifil: 264 yn 2021/22. Cynhaliwyd 132 o Briodasau/Bartneriaethau Sifil yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 • Seremonïau Dinasyddiaeth: 38* (Cynhaliwyd 18 rhwng Ionawr a Mawrth 2022, fel yr amlygir uchod, mae hyn yn sgîl cynnydd yn y gwasanaethau mae'r Swyddfa Gofrestru yn eu cynnig. <p>Yn ogystal â'r uchod, er nad yw wedi'i gynnwys yn y ffigurau blynyddol, yn 2021/22, cynyddodd nifer yr Hysbysiadu Priodas yn sylweddol yn y flwyddyn ariannol hon. Cafwyd 1154* hysbysiad yn 2021/22, 415 ohonynt rhwng Ionawr a Mawrth 2022. Fel y soniwyd uchod, y rheswm am hynny oedd cynnydd yn y gwasanaethau roedd y Swyddfa Gofrestru yn eu cynnig.</p> <p>Nid oes targed wedi'i bennu ar gyfer y mesur hwn.</p>						
PI/321 - Gwasanaethau Cyfreithiol – Nifer yr amlosgiadau a gynhaliwyd	1517.00	1813.00	1451.00		 AMH	 AMH
<p>Cynhaliwyd 1,451 o amlosgiadau yn Amlogfa Margam yn 2021/22, o gymharu â 1,813 yn 2020/21. Nid oes modd egluro'r gostyngiad hwn yn y nifer, ond mae'n bosibl bod newidiadau yng nghyfraddau Covid-19 wedi cyfrannu ato. Nid oes targed wedi'i bennu ar gyfer y mesur hwn.</p>						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/329 – Gwasanaethau Digidol – Argaeledd Systemau	99.90	99.90	99.90	99.90	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Cynhaliodd y gwasanaeth isafswm argaeledd o 99.9%.						
PI/417 – Gwasanaethau Cyfreithiol - 7.7(L) – Canran y chwiliadau safonol a gyflawnwyd o fewn 10 niwrnod gwaith	99.35	99.33	98.87	96.00	 Ambr	 Gwyrdd
Canran y chwiliadau swyddogol a gwblhawyd yn ystod blwyddyn lawn 2021/22 oedd 98.9% (1,576 o 1,594), gostyngiad bach o lai na 0.5% o gymharu â blwyddyn ariannol flaenorol 2020/21, sef 99.3% (1,342 o 1,351), fodd bynnag, rydym wedi derbyn nifer sylweddol o chwiliadau mwy cymhleth yn y flwyddyn ariannol hon, ac mae'r rheiny'n cymryd mwy o amser i'w cwblhau. At ei gilydd, rydym yn dal i gynnal amser ymateb sy'n agos at 100% o fewn y targed o 10 diwrnod gwaith a gyhoeddwyd.						
PI/540 – Gwasanaethau Digidol – sgôr Boddhad Defnyddwyr Gwefan corfforaethol CNPT			89.83	70.00	 AMH	 Gwyrdd
Rydym ni'n parhau i roi arddulliau, cydrannau a phatrymau gov.uk ar waith, er mwyn gwella profiad y cwsmer ar NPT.gov.uk. Rydym ni'n parhau i fonitro adborth defnyddwyr er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Dangosydd perfformiad newydd ar gyfer 2021/22.						
PI/541 – Gwasanaethau Digidol – sgôr cydymffurfiaeth hygyrchedd WCAG (Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys ar y We) yn erbyn y safon 'AA'	99.35	99.33	98.87	96.00	 Ambr	 Gwyrdd
Mae rheoliadau hygyrchedd newydd yn y sector cyhoeddus yn golygu bod rhaid i holl wefannau'r sector cyhoeddus fodloni'r 'safon AA'. Mae ein gwefan ni yn bodloni'r safon AA hon. Mae'r safon AA yn rhan o'r Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys ar y We (WCAG 2.1 fel y'u gelwir) sy'n cyflwyno argymhellion ar gyfer gwella hygyrchedd ar y we. Dangosydd perfformiad newydd ar gyfer 2021/22.						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd						
PI/393 - Canran arwynebedd mewnol gros adeiladau'r awdurdod lleol sydd yng nghategori cyflwr A - da	22.98	23.04	24.79		 Gwyrdd	 AMH
Mae Arwynebedd Mewnol Gros (GIA) adeiladau categori A o ran cyflwr wedi codi ers y flwyddyn flaenorol. Y prif reswm am y newid hwn yw bod Ysgol Cefn Saeson wedi cael ei chyfnwid am ysgol newydd. Ni phennwyd targed ar gyfer y mesur hwn.						
PI/394 - Canran arwynebedd mewnol gros adeiladau'r awdurdod lleol sydd yng nghategori cyflwr B - boddhaol	25.21	25.27	26.32		 Gwyrdd	 AMH
Mae Arwynebedd Mewnol Gros (GIA) adeiladau categori B o ran cyflwr yn fras yr un fath ag yn y flwyddyn flaenorol, er bod gwelliant bychan. Ni phennwyd targed ar gyfer y mesur hwn.						
PI/395 - Canran arwynebedd mewnol gros adeiladau'r awdurdod lleol sydd yng nghategori cyflwr C - gwael	43.86	43.78	43.31		 Gwyrdd	 AMH
Mae Arwynebedd Mewnol Gros (GIA) adeiladau categori C o ran cyflwr yn fras yr un fath ag yn y flwyddyn flaenorol, er bod gwelliant bychan. Ni phennwyd targed ar gyfer y mesur hwn.						
PI/396 - Canran arwynebedd mewnol gros adeiladau'r awdurdod lleol sydd yng nghategori cyflwr D - drwg	7.95	7.91	5.58		 Gwyrdd	 AMH
Mae Arwynebedd Mewnol Gros (GIA) adeiladau categori D o ran cyflwr yn welliant ar y llynedd. Y prif reswm am y newid yw bod Ysgol Cefn Saeson wedi cael ei chyfnwid am ysgol newydd. Ni phennwyd targed ar gyfer y mesur hwn.						
PI/397 - Canran cyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw sy'n ofynnol ar gyfer adeiladau'r awdurdod lleol a neilltuwyd ar gyfer gwaith blaenoriaeth lefel 1 – Brys	17.68	17.40	9.88		 Gwyrdd	 AMH
Mae cost gwaith cynnal a chadw brys wedi codi oherwydd addasiadau cost chwyddiant sylweddol, fodd bynnag, mae'r gwerth wedi gostwng oherwydd bod sawl adeilad categori D wedi cael eu dileu, gan gynnwys adnewyddu Ysgol Cefn Saeson. Mae hyn wedi gostwng ôl-groniad cyffredinol costau cynnal a chadw yn sylweddol. Ni phennwyd targed ar gyfer y mesur hwn.						

Dangosydd Perfformiad	Gwirioneddol 19/20	Gwirioneddol 20/21	Gwirioneddol 21/22	Targed 21/22	CAG Yn erbyn 20/21 Gwirioneddol	CAG Yn erbyn Targed 21/22
PI/398 - Canran cyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw sy'n ofynnol ar gyfer adeiladau'r awdurdod lleol a neilltuwyd ar gyfer gwaith blaenoriaeth lefel 2 – Hanfodol	64.05	64.22	76.28		 Coch	 AMH
Mae cost gwaith cynnal a chadw wedi cynyddu oherwydd addasiadau cost chwyddiant sylweddol. At ei gilydd, mae'r ôl-groniadau costau cynnal a chadw wedi gostwng. Ni phennwyd targed ar gyfer y mesur hwn.						
PI/399 - Canran cyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw sy'n ofynnol ar gyfer adeiladau'r awdurdod lleol a neilltuwyd ar gyfer gwaith blaenoriaeth lefel 3 – Dymunol	18.27	18.38	13.04		 Coch	 AMH
Mae cost gwaith cynnal a chadw wedi cynyddu oherwydd addasiadau cost chwyddiant sylweddol. At ei gilydd, mae'r ôl-groniadau costau cynnal a chadw wedi gostwng. Ni phennwyd targed ar gyfer y mesur hwn.						